

# Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy

2007 - 2008

Cewch gopïau ychwanegol o'r ddogfen hon oddi wrth:

Y Gangen Datblygu Cynaliadwy
Yr Uned Strategaeth Gorfforaethol
Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3388
Ffacs: 029 2082 5008
e-bost: deshcorporatestrategyunit@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2008
D5310809

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| 1. Y diweddaraf am y 10 prif ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy | 6 |
| 2. Mentrau a gweithgareddau allweddol sydd wedi hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru | 13 |
| 3. Adroddiad ar ein gweithgareddau ar lefel ryngwladol i hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy | 20 |
| 4. Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy | 23 |
| 5. Y diweddaraf am yr adolygiad o effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy | 24 |
| 6. Sylwadau gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy | 25 |
| Atodiad A: Y diweddaraf am yr ymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy | 27 |

# Rhagair gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai



Mae'n bleser gennyf weld y cynnydd a wneir o hyd yn erbyn yr ymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu cynaliadwy, wedi'i ategu gan ein dyletswydd statudol unigryw, mor gadarn ag erioed ac erys yn arwyddair rhaglen y weinyddiaeth hon. Yn yr adroddiad hwn, fe welwch y cyflawniadau allweddol a wnaed i hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn amrywiaeth eang o feysydd megis iechyd, addysg a chaffael, a hefyd drwy ein cyfraniad i ddatblygu cynaliadwy rhyngwladol.

Bu 2007-2008 yn flwyddyn hynod bwysig i'n gwaith ar ddatblygu cynaliadwy wrth i ni adolygu effeithiolrwydd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy; derbyn adroddiad gan Cynnal Cymru ar safbwyntiau cymdeithas sifil ynglŷn â datblygu cynaliadwy; ac ailgyfrifo Ôl Troed Ecolegol Cymru.

Croesewais yr astudiaethau hyn a gadarnhaodd fod mwy i'w wneud i sicrhau bod Cymru yn dod yn genedl gynaliadwy, a bod cryn frwdfrydedd ymhlith ein partneriaid i wneud rhagor. Felly penderfynais ail-lunio ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Bydd hwn yn amlinellu gweledigaeth gyfoes wedi'i diweddaru o Gymru gynaliadwy. O dan y cynllun newydd, o'r enw Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, byddwn yn ymrwymo i leihau ein hôl troed ecolegol i lefel gynaliadwy dros oes cenhedlaeth. Bydd y Cynllun hefyd yn dangos sut y bydd hyn yn gwella ansawdd bywyd i bobl Cymru, yn enwedig y rhai o'r cymunedau tlotaf. Ein blaenoriaeth fydd sicrhau bod y Cynllun newydd yn berthnasol i bobl Cymru, a dangos sut y mae gan bob sefydliad ac unigolyn ran bwysig i'w chwarae ar hyd y daith hon.

Rwyf yn hyderus y bydd ein Cynllun newydd yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gennym hyd yma, gan arwain at newid parhaol. O'r flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu Adroddiad Blynyddol 'ar ei newydd wedd' i adlewyrchu'r ymagwedd newydd hon, a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu newydd i gefnogi datblygu cynaliadwy.

Hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid sydd wedi hyrwyddo ein nod cyffredin sef Cymru gynaliadwy drwy'r mentrau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn. Rwyf yn ddiolchgar hefyd i'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy sydd wedi rhoi sylwadau annibynnol ar y cynnydd a wnaed.



**Jane Davidson AC**
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
Cynaliadwyedd a Thai

# Cyflwyniad

Llywodraeth Cynulliad Cymru yw un o'r ychydig lywodraethau yn y byd y mae datblygu cynaliadwy yn rhan ganolog o'i statud. Noda'r ddyletswydd, sydd bellach wedi'i gosod ar Weinidogion Cymru ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006:

*The Welsh Ministers must make a scheme ("the sustainable development scheme") setting out how they propose, in the exercise of their functions, to promote sustainable development. (Section 79(1))*

ac

*After each financial year the Welsh Ministers must-*

*(a) publish a report of how the proposals set out in the sustainable development scheme were implemented in that financial year, and*

*(b) lay a copy of the report before the Assembly (Section 79(6))*

Hwn fydd y seithfed adroddiad o'i fath a'r olaf yn erbyn Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007. Mae'n adroddiad sy'n edrych yn ôl ar ein gwaith i hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008.

Bydd fformat yr adroddiad hwn yn ymddangos yn wahanol i fformat adroddiadau blynyddoedd cynharach a bydd yn cwmpasu'r canlynol: mae Adran 1 yn rhoi'r diweddaraf ar **y 10 prif ymrwymiad** yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007; mae Adran 2 yn manylu ar nifer o **brosiectau a mentrau allweddol eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru** a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Manylir ar **Cymru o Blaid Affrica: Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru** a'i weithgareddau cysylltiedig yn Adran 3; ceir crynodeb o gyfres Llywodraeth Cynulliad Cymru o **ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy** yn Adran 4; mae'r bumed adran o'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y gwahanol **ffrydiau gwaith adolygu** a fydd yn llywio cyfeiriad ein gwaith ar ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol, gan gynnwys yr adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd, gwaith a wneir gan Cynnal Cymru, ac Ailgyfrifo Ôl Troed Ecolegol Cymru; ac, yn olaf mae'r adroddiad yn gorffen gyda **sylwadau annibynnol gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru** ar yr adroddiad hwn a throsolwg o gynnydd ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru yn 2007-2008. Mae Atodiad A yn rhoi'r diweddaraf ar yr **ymrwymiadau o Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007** sydd eto i'w cyflawni.

# Adran 1: Y diweddaraf am y 10 prif ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy

Yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007 amlinellwyd 10 ymrwymiad allweddol yr oedd angen gwneud cynnydd allweddol yn eu herbyn yn ein barn ni. Isod ceir y 10 ymrwymiad ynghyd â'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed yn 2007-2008.

**Ymrwymiad 1: Sicrhau, erbyn 2010, bod 100% o'r trydan a ddefnyddir ym mhob un o adeiladau'r Cynulliad yn cael ei gyflenwi o ffynonellau adnewyddadwy neu o brosesau cynhyrchu o ansawdd da; a byddwn yn gweithio tuag at ffigur tebyg ar gyfer adeiladau eraill y sector cyhoeddus.**

**Cynnydd:** Yn ystod 07/08 daeth 73% (33 o adeiladau) o drydan a ddefnyddiwyd yn yr Ystad weinyddol graidd o ffynonellau adnewyddadwy. Gostyngodd y ganran o drydan adnewyddadwy yn y cyfnod hwn, ar ôl gwahanu swyddfeydd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2007. Wrth i gontractau cyflenwi gael eu hadnewyddu maent yn cael eu troi yn gyflenwadau gwyrdd.

Mae'r 57 safle mwyaf yn y GIG yng Nghymru yn defnyddio tariffau trydan di-garbon i gyflenwi eu trydan o'r grid, sef 89% o'r trydan a ddefnyddir gan y GIG yng Nghymru (171 miliwn kWh am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2007 a diwedd mis Mawrth 2008). Mae gosodiad 230KW Ynni'r Gwynt yn Ysbyty Llwynhelyg ar y cam cymeradwyo caniatâd cynllunio ar hyn o bryd.

Cyflenwodd ysbytai'r GIG yng Nghymru 10.8 miliwn kWh o'u hanghenion trydan o unedau Gwres a Phŵer Cyfunedig mewnol yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2007 a diwedd mis Mawrth 2008. Mae sawl cynllun gwres a phŵer cyfunedig newydd ar y gweill hefyd, sydd wedi cyrraedd y cam cymeradwyo achos busnes. At hynny, mae cynllun gwres a phŵer cyfunedig mawr wrthi'n cael ei adeiladu ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd a fydd yn gallu cynhyrchu 4 Mega Wat o drydan pan fydd yn llawn weithredol.

**Ymrwymiad 2: Bydd Llywodraeth y Cynulliad, ei hasiantaethau a'r GIG yng Nghymru yn cyflwyno adroddiadau yn flynyddol ar y defnydd a wneir o ynni ar ei hystadau.**

**Cynnydd:** Mae Safon y Ddraig Werdd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru baratoi adroddiad amgylcheddol blynyddol sy'n disgrifio ei pherfformiad yn erbyn Amcanion a Thargedau gan gynnwys effeithlonrwydd ynni. Mae Adroddiad Blynyddol 2007/08 wedi cael ei baratoi a bydd ar gael yn http://www.newydd.cymru.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/?lang=cy

Mae pob un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn ymrwymedig i gyflawni achrediad System Rheoli Amgylcheddol, naill ai drwy ISO14001 neu'r Ddraig Werdd gan gyrraedd safon Lefel 3 y Ddraig Werdd o leiaf. Mae tair Ymddiriedolaeth wedi cyflawni

ISO 14001, mae saith Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd Lefel 3 y Ddraig Werdd, mae dwy Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd Lefel 2 y Ddraig Werdd ac mae gan y gweddill gynlluniau gweithredu i gyrraedd Statws Lefel 3.

Mae'n ofynnol i bob Ymddiriedolaeth yn y GIG yng Nghymru drwy'r System Monitro Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu defnydd o ynni a'u perfformiad o ran effeithlonrwydd ynni. Mae'r Ymddiriedolaethau wedi cyflwyno eu hadroddiadau am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2007 a diwedd mis Mawrth 2008 ym mis Gorffennaf 2008. Mae manylion am yr adroddiadau hyn ar gael yn:

*info@whe.wales.nhs.uk*

**Ymrwymiad 3: O fis Ionawr 2005, byddwn yn nodi ym mhob contract am adeiladau cyhoeddus newydd neu rai sy'n cael eu hadnewyddu sy'n cael eu caffael gan neu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai'r cynllun gyflawni fel safon ofynnol, safon 'da iawn' BREEAM neu safon gyfwerth a safon 'rhagorol' BREEAM lle bynnag y bo'n bosibl. Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i gyflawni safonau tebyg ar gyfer adeiladau cyhoeddus newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu y maent yn gyfrifol amdanynt.**

**Cynnydd:** Mae polisi Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd ar yr ystad weinyddol graidd yn cyrraedd safon 'rhagorol' o dan Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu a 'da iawn' gan anelu at 'rhagorol' am waith adnewyddu mawr.

Mae Ystadau Iechyd Cymru, mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu, wedi datblygu BREEAM 2il genhedlaeth newydd yn lle'r dull asesu presennol, o'r enw BREEAM Gofal Iechyd.

O 2005-06 roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried egwyddorion cynaliadwyedd (cyflwynwyd safonau BREEAM yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn 2005) ym mhob prosiect adeiladu newydd a gwaith adnewyddu mawr. O 2007-08 daeth yn un o amodau grant o dan y rhaglen Gwella Adeiladau Ysgol y dylai pob ysgol newydd gyrraedd gradd 'rhagorol' BREEAM. Mae dulliau yn cael eu datblygu ar gyfer sicrhau cydweithredu rhwng awdurdodau ar gaffael cynaliadwy a rheoli prosiect, wedi'i gefnogi gan Gwerth Cymru. Mae'r astudiaeth beilot gyda 5 o AALlau sy'n edrych ar gydweithredu rhwng awdurdodau a chaffael yn mynd rhagddi.

O dan y Rhaglenni Gweithredol ar gyfer Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol mae'n ofynnol i bob adeilad newydd gyrraedd gradd 'rhagorol' BREEAM. Anogir graddau 'da iawn' BREEAM ar gyfer adeiladau wedi'u hadnewyddu. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) hefyd yn gweithio gyda darpar noddwyr prosiect, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, ar gam cynnar i sicrhau'r ymrwymiad mwyaf posibl i Ddatblygu Cynaliadwy.

**Ymrwymiad 4: Erbyn 2006, byddwn wedi sefydlu prosiectau peilot sy'n archwilio potensial defnyddio datrysiadau ynni adnewyddadwy yn ein polisïau a'n rhaglenni sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith cartrefi diamddiffyn ar incwm isel, yn arbennig y rhai na allant elwa ar ddulliau gwella traddodiadol.**

**Cynnydd:** Mae atebion adnewyddadwy ac amgen wedi cael eu treialu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol drwy'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Rydym yn aros bellach am adborth manwl ar gostau gosod a rhedeg y technolegau, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw broblemau ymarferol y daethpwyd ar eu traws wrth osod y dechnoleg.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried cymhellion ychwanegol ar gyfer microgynhyrchu mewn eiddo sydd ag incwm isel ac sydd wedi cyrraedd eu potensial o ran effeithlonrwydd ynni. Bydd Cymru yn ardal beilot ar gyfer Ffrwd Waith Tlodi Tanwydd Rhaglen Adeiladau Carbon Isel newydd Llywodraeth y DU a fydd yn ymestyn grantiau i unedau gwresogi microgynhyrchu mewn cartrefi anodd eu gwresogi sy'n debygol o wynebu tlodi tanwydd. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael £1 filiwn oddi wrth Lywodraeth y DU a bydd yn darparu arian cyfatebol. Ei nod yw denu rhagor o arian oddi wrth bartneriaid a rhaglenni eraill lle y bo modd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn bwriadu sicrhau'r defnydd gorau o arian cydgyfeirio, yn enwedig ar gyfer atebion ynni adnewyddadwy cymuned a dosbarth, ac mae wedi mynd ati mewn ffordd strategol i ddwyn ynghyd y gwahanol fuddiannau a cheisiadau i WEFO. Mae hyn yn arbennig o addas ar gyfer tai anodd eu gwresogi lle mae incwm isel, sydd fel arfer mewn ardaloedd gwledig, oddi ar y grid a chyda waliau solet. Mae'r tai hyn yn dibynnu ar wresogi olew ar y cyfan ac felly maent yn wynebu'r gwaethaf o'r cynnydd ym mhrisiau ynni. Er na all WEFO ariannu cartrefi, mae arian yr UE ar gael o dan raglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 a allai ariannu datblygiad ffynonellau newydd o ynni glân, a helpu busnesau, gan gynnwys menter gymdeithasol, i ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy a thechnolegau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac arian i gefnogi systemau gwresogi cymunedol neu ddosbarth e.e. Rhaglen Gydgyfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Blaenoriaeth 4 Thema 1.

**Ymrwymiad 5: Bydd y Cynulliad a'i asiantaethau yn annog datblygu diwydiant ynni adnewyddadwy microgynhyrchu cynhenid yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar gyfleoedd ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint. Awdurdod Datblygu Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a lle y bo'n briodol, sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy i gydweithio'n agos i ddarparu ymagwedd gydlynus.**

**Cynnydd:** Rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2008, mae'r Clwstwr Ynni Gwyrdd wedi datblygu'n rhwydwaith i gwmnïau sy'n ymwneud â microgynhyrchu. Mae wedi rhoi blaenwybodaeth i'r sector a rhanddeiliaid, ac wedi cynyddu cyfleoedd gwerthu i'r sector, drwy ddarparu cymysgedd o gylchlythyrau a digwyddiadau i'r rhwydwaith. Datblygwyd digwyddiadau broceriaeth bach i fynd i'r afael ag anghenion y microfusnesau o fewn y clwstwr.

Mae 230 o gwmnïau a sefydliadau wedi'u cofrestru'n aelodau o'r Clwstwr Ynni Gwyrdd. Gellir nodi 61 o gwmnïau fel gosodwyr technolegau microgynhyrchu adnewyddadwy y mae 57% ohonynt wedi'u lleoli yn ardal Amcan Un Cymru. Hefyd gellir nodi 40 o gwmnïau fel ymgynghorwyr ym maes ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gydag ychydig o dan hanner wedi'u lleoli yn ardal Amcan Un Cymru.

Mae gweddill y cwmnïau yn cynnwys cyflenwyr cadwyn danwydd, amrywiol asiantaethau, darpar newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, tua dwsin o ddarparwyr tai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a chwmnïau nad ydynt yn ficrogynhyrchwyr adnewyddadwy. Mae dysgu sgiliau newydd i blymwyr a thrydanwyr wedi bod yn nodwedd gref i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad.

Nod Cynllun Gweithredu Microgynhyrchu Cymru, a lansiwyd ym mis Mawrth 2007, yw cynyddu'n sylweddol faint o systemau microgynhyrchu effeithiol, dibynadwy a fforddiadwy a osodir yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu ynni lleol.

Mae gweithgorau wedi cael eu sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn.

Un o'r tasgau cyntaf yr ymgymerwyd â hi oedd pennu'r cwmpas ar gyfer astudiaeth i ganfod data sylfaenol ar ficrogynhyrchu yng Nghymru; h.y.:

- nifer y gosodiadau a'r math o osodiadau
- seilwaith y grid (gan gynnwys mannau oddi ar y prif gyflenwad)
- cyrsiau hyfforddiant gan gynnwys galw a ragwelwyd
- effaith prosiectau arddangos
- ymchwil a datblygu mewn prifysgolion ac ati.

Bydd yr astudiaeth hon yn helpu i ganfod effeithiolrwydd y gweithgareddau sydd i'w cynnal yn y cynllun gweithredu microgynhyrchu.

Mae camau hefyd wedi cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau allanol, i gyfleu manteision microgynhyrchu ac i wella cyfleoedd i ddysgu am ficrogynhyrchu mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Cam pwysig o ran hyrwyddo microgynhyrchu oedd sefydlu rhwydwaith ynni cynaliadwy yng Nghymru a fydd yn rhoi cyngor a chymorth ar effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu ar lefel leol a chymunedol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ganllawiau cynllunio a threfnwyd gweithdai cynllunio ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol.

Mae cynllunwyr sy'n datblygu tai, busnesau, ysbytai ac ati ar dir o dan berchnogaeth Llywodraeth y Cynulliad yn asesu'r graddau y gall microgynhyrchu a chynhyrchu ynni lleol arwain at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd microgynhyrchu hefyd yn nodwedd o raglen adfywio Blaenau'r Cymoedd.

Mae'r rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd yn cynnwys gweithgareddau cymwys penodol sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, tra byddai agweddau ar y prosiectau hyn a phrosiectau eraill, e.e. TGCh, yn helpu sefydliadau i gydweithio'n well i ffurfio diwydiant microgynhyrchu yng Nghymru.

Rhaglen Gydgyfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Blaenoriaeth 4 Thema 1 a Chystadleurwydd ERDF Blaenoriaeth 3: helpu microfusnesau, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol i ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy ac sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau microgynhyrchu.

O dan ERDF Cydgyfeirio Blaenoriaeth 1 Thema 1 ceir hefyd weithgarwch prosiect dangosol ar ddatblygu technolegau amgylcheddol, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni.

**Ymrwymiad 6: Byddwn yn comisiynu prosiect i ymchwilio i fanteision hybu a manteisio ar danwyddau amgen yng Nghymru, megis biodanwyddau, bio-nwy, nwy naturiol a hydrogen, yn ogystal â'r rhwystrau i hynny.**

**Cynnydd:** Mae'r adroddiad "Tanwyddau Amgen ar gyfer Trafnidiaeth yng Nghymru" wedi ei gwneud yn bosibl ymchwilio i'r materion allweddol.

Mae'r Rhwymedigaeth ar Danwyddau Trafnidiaeth Adnewyddadwy yn ei gwneud yn ofynnol i 5% o'r holl danwydd a werthir yn y DU ddod o ffynonellau adnewyddadwy. Gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth ar argymhellion adolygiad Gallagher, gan gynnwys yr argymhelliad y dylid arafu'r broses o gyflwyno biodanwyddau yn y DU er mwyn ystyried y dystiolaeth wyddonol sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â'u cynaliadwyedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu Clwstwr Trenau Tanwyddau a Phŵer Amgen. Nod y corff hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant moduron a byd addysg yw adeiladu ar ddatblygiadau technegol a gwyddonol o bedwar ban byd i sefydlu prosiectau ymchwil arloesol yng Nghymru.

**Ymrwymiad 7: Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion er mwyn sicrhau bod manylebau contractau ar gyfer prydau bwyd ysgolion, pan fydd angen eu hadnewyddu, yn mynd i'r afael â materion iechyd a maeth a bwydydd tymhorol.**

**Cynnydd:** Mae Cynllun Gweithredu Blas am Oes a lansiwyd ym mis Tachwedd 2007 yn nodi'r cyfeiriadau strategol a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella safonau bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd cydlynydd, a benodwyd ar y cyd â CLlLC ym mis Ebrill 2007, yn helpu i'w weithredu'n ymarferol yn lleol.

**Ymrwymiad 8: Byddwn yn cyflwyno cynllun amaeth-amgylcheddol haen uchaf wedi'i dargedu er mwyn annog camau gweithredu ar y cyd, gan ehangu'r buddiannau amgylcheddol yng nghefn gwlad ar draws ffiniau ffermydd.**

**Cynnydd:** Mae strwythur cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r holl gynlluniau rheoli tir a gefnogir o dan Echel 2 o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pob un o'r prif grwpiau â diddordeb ac mae wedi cyfarfod drwy gydol rhan olaf 2007 a dechrau 2008. Penodwyd rheolwr prosiect ym mis Mehefin 2007 i reoli'r broses a pharatoi adroddiad drafft a fydd yn sail ar gyfer datblygu'r ddogfen ymgynghori. Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar yr opsiynau posibl - a fydd yn cynnwys y posibilrwydd o gamau gweithredu amaeth-amgylcheddol haen uchaf yn Hydref 2008.

**Ymrwymiad 9: Gyda'n Panel Ymgynghorol byddwn yn cynhyrchu strategaeth Cymru gyfan ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang erbyn Gwanwyn 2005.**

**Cynnydd:** Lansiwyd cynllun gweithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) ar 19 Medi 2006 gyda hyrwyddwr ADCDF yn cael ei benodi ym mis Ionawr 2007. Ers hynny mae dros 50% o'r camau a restrwyd yng nghynllun gweithredu ADCDF yn cael eu cymryd neu wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn gyntaf o roi'r cynllun ar waith. Mae uchafbwyntiau ym mhob sector sy'n ymwneud ag agweddau ar ymrwymiad ac arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, arferion sefydliadol, partneriaethau a monitro.

## Ysgolion

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd yn cynnig proffil uwch i ADCDF fel thema drawsbynciol, sy'n rhan annatod o ethos ysgol ac sy'n cael lle penodol mewn llawer o bynciau unigol. Gwnaed gwaith i feithrin 'dealltwriaeth gyffredin' o ADCDF sy'n rhoi gweledigaeth genedlaethol ar gyfer ADCDF. Mae grwpiau rhanddeiliaid gweithredol wedi cael eu sefydlu i fwydo i mewn i ddatblygiadau.

## Sector gwaith ieuenctid

Mae hyfforddiant wedi cael ei roi i weithwyr ieuenctid ar ADCDF ac mae rhanddeiliaid allweddol wedi cyfarfod i ddechrau dod i ddealltwriaeth gyffredin o ADCDF i'r sector hwn. O ran polisi cafodd datganiad y cwricwlwm gwaith ieuenctid ei ddiweddaru i gynnwys cyfeiriadau at ADCDF.

## Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith

Gwnaeth pob coleg addysg bellach ddiweddaru ADCDF fel rhan o'u gwaith cynllunio strategol a'u deunyddiau cynorthwyol ac mae arferion da wedi datblygu o hyn. Cynhaliwyd archwiliad o ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a roddodd arwydd clir o'r angen ar gyfer y sector. Mae prosiect wedi'i ariannu yn mynd rhagddo i helpu darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith i gyflawni ADCDF yn eu sefydliadau ac fel rhan o'r hyfforddiant a roddant.

## Addysg Uwch

Cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru arian i annog pob sefydliad Addysg Uwch i ymrwymo i system Rheoli Amgylcheddol i'w sefydliad a chynnal archwiliad cwricwlwm ar gyfer ADCDF.

## Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Tynnwyd grŵp rhanddeiliaid ynghyd i ystyried sut i integreiddio ADCDF â maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae Estyn wedi paratoi adroddiad i'r sector hwn yn ystod 07/08 a bydd hwn yn dylanwadu ar waith pellach y grŵp.

**Ymrwymiad 10: Erbyn Gwanwyn 2005 byddwn yn cyflwyno proses asesu amgylcheddol ECOHomes ac yn pennu safonau effeithlonrwydd ynni sy'n sylweddol uwch na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan reoliadau adeiladu ar gyfer pob cartref newydd a gaiff ei adeiladu yng Nghymru gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan ddefnyddio Grant Tai Cymdeithasol.**

**Cynnydd:** Ers ei gyflwyno amcangyfrifir bod tua 2500 o gartrefi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi cael eu datblygu yn unol â gradd 'Da' Ecohomes.

Ers 31 Mawrth 2008 mae lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy wedi disodli BREEAM Ecohomes. Mae hon yn gosod safon ynni gyfatebol uwch, 25% yn well na'r rheoliadau adeiladu presennol.

# Adran 2: Mentrau a gweithgareddau allweddol sydd wedi hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

Fel llywodraeth, rydym yn parhau i gredu y dylai Datblygu Cynaliadwy fod yn rhan o'r ffordd rydym yn cynnal ein busnes, yn rheoli ein hystad ac yn gwario ein harian.

Cafodd **Pecyn Cymorth Integreiddio'r Porth i Bolisïau** ei gynllunio yn 2004 i wella cynllun polisïau, helpu i ddatblygu polisïau cynaliadwy, helpu i wneud penderfyniadau ar egin-bolisïau a sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol. Yn 2007, penderfynwyd bod angen diwygio a diweddaru'r Porth i Bolisïau, a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio, i ystyried profiad defnyddwyr, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a rhaglen Cymru'n Un ar gyfer Llywodraethu.

Yn dilyn nifer o gyfarfodydd mewnol ac allanol mae'r offeryn wedi cael ei ddiwygio. Caiff Porth i Bolisïau Cymru'n Un ei lansio ym mis Ebrill 2008 a'i dreialu tan fis Hydref 2008. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys ychwanegu Cam Cynnar i helpu i gynllunio datblygiad polisi a meithrin ymwneud mewnol ac allanol a Cham Terfynol diwygiedig i asesu effaith dogfen ymgynghori ar bob rhan o agenda'r Llywodraeth - mae gwahanol fersiynau yn cael eu profi yn ystod y cynllun peilot. Bydd y cynllun peilot yn casglu adborth gan drefnwyr, cyfranogwyr a chadeiryddion sesiynau ynglŷn â'r Porth i Bolisïau i werthuso a ychwanegir gwerth yn y broses, a gwneud argymhellion ar y ffordd i weithredu.

Mae gwaith wedi parhau drwy **Faterion Gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru** i leihau effaith amgylcheddol ei hystad a gwella ei chynaliadwyedd. Yr allwedd i hyn yw gweithredu System Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Bwriad y Ddraig Werdd yw rhoi elfennau o system rheoli amgylcheddol effeithiol i sefydliadau, sy'n briodol i natur a graddau eu gweithgareddau a'u gweithrediadau. Mae i'r Safon bum cam. Mae Lefel 5 yn cyfateb yn fras i ofynion ISO 14001, sef y safon ryngwladol ar gyfer system rheoli amgylcheddol. Cafodd swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghaerfyrddin ac ym Merthyr Tudful eu hardystio i Lefel 5 a chafodd ei swyddfa ym Mharc Cathays ei hailardystio i Lefel 5 ym mis Medi 2007. Mae prosiect cyflwyno ar y gweill i ymestyn Lefel 5 y Ddraig Werdd i'r swyddfeydd ym Medwas a Llandrindod erbyn mis Medi 2008 a thrwy'r ystad gyfan erbyn mis Gorffennaf 2009.

Mae cyflawniadau allweddol yn 2007/08 yn cynnwys:

- Cwblhau Cam 1 o Gyflwyno'r Ddraig Werdd yn swyddfeydd Caerfyrddin a Merthyr Tudful a chychwyn ar Gam 2 (profi Cynhyrchion Cyflwyno) yn Llandrindod a Bedwas;

- Adroddiad Interim y Prosiect Rheoli Carbon wedi'i baratoi ac arian wedi'i ddyrannu i gefnogi'r cam gweithredu er mwyn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau ei hôl troed carbon;
- Lleihau allyriadau carbon deuocsid o'r defnydd o drydan a nwy 6% ym Mharc Cathays;
- Lleihau'r defnydd o ddŵr yn adeilad 1 Parc Cathays yng Nghaerdydd 47%;
- Prynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 73% o'i thrydan ar dariff gwyrdd a 89% o'i phapur o ffynonellau wedi'u hailgylchu;
- Cynhyrchwyd pob un o gyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bapur wedi'i ailgylchu;
- gostyngodd y defnydd pob dydd o bapur 20% gan arbed adnoddau a lleihau gwastraff;
- Gostyngiad o 16% mewn gwastraff a gynhyrchwyd ym Mharc Cathays, ac anfonwyd 66% ohono i'w ailgylchu.

Mae adroddiad llawn ar gael yn http://www.newydd.cymru.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/?lang=cy

Mae ein gwaith ar **Gaffael Cynaliadwy** wedi cael ei weithredu gan y Tasglu Caffael Busnes lle cwmpasodd y gwaith amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys:

- Sicrhau bod egwyddorion y Siarter ar Gaffael i Fusnesau Bach a Chanolig, "Agor Drysau" yn rhan annatod o arferion caffael o ddydd i ddydd. Cyhoeddwyd y Siarter yn 2006 yn wreiddiol a lansiwyd fersiwn newydd yn 2008 a bydd canllawiau gweithredu yn dilyn erbyn diwedd 2008, a fydd yn ymdrin â'r holl faterion a godwyd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ers ei chyhoeddi. Rhwng 2004 a 2006, cynyddodd y gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru o 35% o wariant y sector cyhoeddus nad oedd yn wariant ar staff i 49%. Bwriedir gwneud dadansoddiad pellach yn ystod Haf 2008. Awgryma ymchwil y gall pob 1% o gynnydd mewn gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru greu hyd at 2,000 o swyddi;
- Cymhwyso cymalau buddiannau cymunedol mewn contractau yn amrywio o adeiladu ysbytai a ffyrdd i adnewyddu stoc dai. Amcangyfrifir os cymhwysir y fethodoleg at bob contract Adeiladu a Gwasanaeth mawr yn y Sector Cyhoeddus, y gellid hyfforddi a chyflogi hyd at 2,000 o bobl economaidd anweithgar yng Nghymru;
- Gweithio ar fentrau caffael bwyd cydweithredol, sy'n galluogi cyflenwyr yng Nghymru i gael mwy o gyfle i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Gwnaed gwaith ar fapio cadwyni cyflenwi bwyd i nodi'r meysydd lle y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ymyrryd i helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo i mewn i'r Fenter Caffael Bwyd Lleol o dan arweiniad yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad;
- Helpu sefydliadau a busnesau â chymorth yn y Trydydd Sector i gael mwy o gyfle i ymgynnig am gontractau'r sector cyhoeddus drwy annog y defnydd o gwerthwchigymru, mynd i ddigwyddiadau i brynwyr, hwyluso gweithdai a pharatoi

canllawiau. Lansiwyd Canllaw ar Weithio gyda'r Trydydd Sector yn 2008 mewn digwyddiad rhwydweithio a ddaeth â phrynwyr y sector cyhoeddus a chyflenwyr y Trydydd Sector ynghyd a bwriedir lansio cwrs hyfforddi yn seiliedig ar y canllaw hwn ym mis Tachwedd 2008;

- Mae canllawiau cyfreithiol a dogfen o gwestiynau cyffredin yn cael eu paratoi gyda'r nod o helpu prynwyr y sector cyhoeddus i weithio'n haws gyda Busnesau â Chymorth. Mae'r cyngor cyfreithiol wedi'i gyfleu'n eang, gan gynnwys digwyddiad i brynwyr a chyflenwyr ym mis Tachwedd 2007. Mae Gwerth Cymru hefyd yn trefnu fframwaith contract wrth gefn ar gyfer dodrefn, ailgylchu ac arwyddion ar ran y sector cyhoeddus;
- Nodi meysydd o wariant y sector cyhoeddus sy'n mynd y tu allan i Gymru ar hyn o bryd a gweithio gydag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth/Gwasanaeth Cynghori ar Weithgynhyrchu a'r Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad i ganolbwyntio ar gyfleoedd i gyflenwyr Cymru. Mae gwaith wedi dechrau ar ddadansoddi cadwyni cyflenwi mewn meysydd megis adeiladu/adnewyddu, defnyddiau meddygol a bwyd ac mae rôl 'broceriaeth' wedi cael ei nodi i ddwyn ynghyd wariant cynlluniedig y sector cyhoeddus a chyflenwyr yng Nghymru;
- Mae'r Gwasanaethau Caffael Corfforaethol wedi datblygu Fframwaith Caffael Cynaliadwy ar gyfer pob contract newydd dros £25,000. Mae hwn yn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn cael ei ystyried yn ystod camau cynnar pob ymarfer caffael o'r maint hwn;
- Rhoi hyfforddiant i'r rhai sy'n caffael yn y sector cyhoeddus ar sut i brynu'n gynaliadwy. Lansiwyd y cwrs hyfforddi, "Gwneud iddo Ddigwydd" ar ddiwedd 2006 a hyd yma mae dros 200 o bobl wedi cael hyfforddiant ar y defnydd o ddau offeryn ymarferol: y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy a'r Templed Asesu Risg Gynaliadwy. Erbyn hyn defnyddir yr offer hyn yn eang o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwneir defnydd cynyddol ohonynt gan y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Mae llythyrau ariannu hefyd yn gynyddol yn cynnwys gofyniad bod yn rhaid i'r offer hyn gael eu defnyddio. Hefyd mae cyrsiau ar weithio gyda'r Trydydd Sector/Busnesau â Chymorth a chydraddoldeb ac amrywiaeth mewn caffael wedi'u datblygu ac fe'u cynigir i'r sector cyhoeddus.

Un o egwyddorion **Cynllun Gofodol Cymru** yw y dylai datblygu fod yn gynaliadwy. Nod Cynllun Gofodol Cymru yw sicrhau datblygu cynaliadwy drwy ei Strategaethau Ardal yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac mae enghreifftiau o ymrwymiadau yn y ddogfen wedi'i diweddaru yn cynnwys:

- Diffinio'r cysyniad o ranbarthau carbon isel a sut y gellir cyflawni hyn ym mhob Ardal;
- Datblygu strategaeth i leihau ôl troed ecolegol pob Ardal ym mhob un o'i gweithgareddau, a nodi hyn yn fframwaith gweithredu'r Ardal.

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Gofodol Cymru ar gael yn www.wales.gov.uk/walesspatialplan

Cymeradwywyd Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2008. Mae'n fframwaith cyffredinol ac yn offeryn integreiddio i Gymru ac mae'n allweddol i gydgysylltu ein gweithgareddau'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Datblygwyd y ddogfen drwy arweiniad gwleidyddol ar lefel uwch gan Weinidogion arweiniol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob Ardal o'r Cynllun Gofodol gan weithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol; y sector addysg, y sector amgylcheddol, y sector busnes, y sector cydraddoldeb a'r trydydd sector. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus hynod lwyddiannus ar y ddogfen ddrafft a bu'n destun asesiadau amgylcheddol a chydraddoldeb trylwyr.

Cydnabu cytundeb Cymru'n Un fod y **Newid yn yr Hinsawdd** yn fygythiad byd-eang ac ymrwymodd i'r nod o ostwng allyriadau sy'n cyfateb i garbon 3% bob blwyddyn erbyn 2011 mewn meysydd lle mae pwerau wedi'u datganoli. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd sy'n llywio gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yng Nghymru drwy roi arweiniad strategol, cyfeiriad a chonsensws ledled Cymru. Mae iddo bedwar is-grŵp sy'n cwmpasu addasu, cyfathrebu, lleihau allyriadau ac ymchwil, methodoleg ac economeg. Cyfarfu'r Comisiwn ddwywaith cyn 31 Mawrth 2008. Ym mis Medi 2007 penodwyd yr Hyrwyddwyr Newid yn yr Hinsawdd cyntaf i Gymru gan Lywodraeth y Cynulliad, sef chwech o bobl ifanc a fydd â'r dasg o gyfleu'r pethau hawdd y gall pobl eu gwneud i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Hefyd dechreuodd Llywodraeth y Cynulliad ar raglen ymgysylltu â chymunedau ar y newid yn yr hinsawdd drwy gynnal digwyddiad sy'n edrych ar weithgarwch cymunedol sy'n digwydd eisoes ac sy'n anelu at ysbrydoli gweithgarwch pellach.

Ym mis Hydref 2007 cymerodd uwch arweinwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus ran yn **rhaglen ddysgu weithredol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru sef "Walking not talking for sustainability"** o dan arweiniad Jonathon Porritt o'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Dros chwe sesiwn undydd dros gyfnod o wyth mis bu modd iddynt fynd i'r afael â'r syniad o ddatblygu cynaliadwy fel yr egwyddor ganolog wrth wraidd popeth a wna sefydliad.

Bydd gwerthusiad o'r rhaglen ar ôl iddi ddod i ben, gan gynnwys adborth gan y rhai a gymerodd ran, yn galluogi RhNgCC a Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i nodi'r camau nesaf ar gyfer gwaith ar godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag arweiniad mewn datblygu cynaliadwy drwy'r sector cyhoeddus.

Er mwyn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu **Adeiladau Cynaliadwy** i Gymru, mabwysiadwyd y Cod Cartrefi Cynaliadwy fel yr offeryn a ffefrir i asesu cynaliadwyedd cartrefi newydd. Cyhoeddodd hefyd ym mis Mawrth ei bod yn ofynnol o fis Ebrill 2008 bod pob cartref newydd i'w rentu a adeiledir gan Landlordiaid

Cymdeithasol Cofrestredig yn cyrraedd lefel 3 o'r cod, gan symud i lefel 4 a 5 o'r cod mor fuan â phosibl. Mae prosiect peilot hefyd yn cael ei ddatblygu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ystyried goblygiadau cyrraedd lefelau uwch y cod (4 a 5).

Ar hyn o bryd gofynnir am radd 'rhagorol' BREEAM ar gyfer pob adeilad nad yw'n adeilad preswyl sy'n cynnwys defnyddio tir Llywodraeth y Cynulliad neu lle gwneir cais am gymorth grant. Cynhelir prosiectau peilot/braenaru ar gyfer nifer o safleoedd defnydd cymysg i asesu goblygiadau'r dyhead am fod yn ddi-garbon a sut y gall ynni adnewyddadwy fod yn rhan o gynllun. Bydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn rhoi cymorth ynglŷn â'r dyhead am fod yn ddi-garbon a gostwng $CO_2$ 3% bob blwyddyn mewn meysydd lle mae pwerau wedi'u datganoli.

Mae **fframwaith Datblygu Cynaliadwy Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn hybu dealltwriaeth a gweithredu datblygu cynaliadwy mewn llywodraeth leol yng Nghymru, gan roi canllawiau ymarferol i hwyluso newid tuag at ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio. Yn 2007 cynhaliwyd asesiad manwl o anghenion drwy gyfweliadau â uwch staff sy'n gwneud penderfyniadau ym mhob awdurdod lleol, parc cenedlaethol ac awdurdod tân. Dangosodd y cyfweliadau hyn fod y Fframwaith wedi llwyddo i gydio yn nychymyg y rhai sy'n darparu gwasanaethau ac uwch reolwyr, a bod awydd am ragor o wybodaeth a chymorth gan CLlLC a'i phartneriaid. Ar sail canfyddiadau'r asesiad hwn mae'r Fframwaith bellach yn cynnig cyfres gynhwysfawr ac wedi'i theilwra o adnoddau i helpu awdurdodau i gymhwyso egwyddorion cynaliadwyedd i ddarparu gwell gwasanaethau cyngor.

Mae'r pecyn yn adeiladu ar yr adnoddau ar-lein presennol ac yn fwy nag erioed mae wedi'i anelu at gyngor ymarferol ac mae'n cynnwys modiwlau gwasanaeth ychwanegol a chyfres o Daflenni Adnoddau sy'n cael eu datblygu i feithrin gallu a dealltwriaeth ar nifer o faterion gan gynnwys: masnachu mewn carbon, y Mesur Newid yn yr Hinsawdd, bwyd cynaliadwy, a chostau oes gyfan. Mae'r adnoddau hyn wedi'u hategu gan weithgareddau ymarferol gan gynnwys gweithdai cenedlaethol, sesiynau hyfforddi a chymorth i brosiectau arloesol penodol.

Maes gwaith newydd ychwanegol i'r Fframwaith yw'r angen i roi sylfaen dystiolaeth i awdurdodau lleol ar y rôl y mae angen i egwyddorion cynaliadwyedd ei chwarae o ran cynllunio risg strategol. Mae pecyn y Fframwaith yn cynnig cyngor a chymorth i awdurdodau er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau call hirdymor ynglŷn â chadw a gwella lles cymunedol drwy ddatblygu gallu lleol i wrthsefyll a mabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at faterion fel y newid yn yr hinsawdd a phrisiau tanwydd cynyddol.

Cryfder allweddol y Fframwaith yw ei fod yn cynnig cymorth drwy ddewislen eang o faterion a dulliau cyflawni sy'n galluogi CLlLC i deilwra pecyn i ddiwallu anghenion penodol pob awdurdod unigol. A gellir cyflawni'r cyfan o fewn un nod cyffredin; bod egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wraidd llywodraethu da.

Mae **Fforwm ar gyfer y Dyfodol** (Fforwm), elusen datblygu cynaliadwy, yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau arweiniol ym myd busnes a'r sector cyhoeddus. Ei nod yw helpu sefydliadau i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus o ran pobl, lleoedd a'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Bartner yn Rhaglen Sector Cyhoeddus Fforwm. Mae Fforwm wedi ymgymryd â rhaglen waith fanwl gyda'r nod o helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn fwy cynaliadwy a rhoi arweiniad gwirioneddol ym maes cynaliadwyedd.

Eleni gweithiodd Fforwm gyda Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru i ddarparu rhaglenni hyfforddi/ymgysylltu cyfochrog tra cynhaliodd cynghorwyr ar gynaliadwyedd gyfres o seminarau i reolwyr canol a'u rhanddeiliaid ar bynciau penodol megis Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Addysg, Adeiladu a Thrafnidiaeth. Parhaodd Fforwm i gyfrannu hefyd i'r fframwaith Caffael Adeiladu Cynaliadwy ar gyfer Gwerth Cymru a chyfrannodd at waith rhaglen Creu'r Cysylltiadau drwy gynnal gweithdy ar y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd i gynulleidfa wadd o aelodau Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Cyfrannodd Fforwm hefyd at waith ar feithrin gallu'n fewnol gan gynnal gweithdai gyda phob uwch dîm rheoli adrannol i asesu lefelau o ddealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy ar draws yr is-adran.

Datblygodd **Cynnal Cymru-Sustain Wales**, sef Fforwm Datblygu Cynaliadwy Cymru sawl maes o'i waith yn 2007-08. Ymgysylltodd yn eang â chymdeithas sifil ar flaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd yn y dyfodol a lluniodd ei adroddiad 'Transformation Nation' i gyfleu'r safbwyntiau hyn i Lywodraeth y Cynulliad. Daeth Cynnal Cymru yn ail yng Ngwobrau Cymru-Wales PRide y Sefydliad Siartredig dros Gysylltiadau Cyhoeddus am ei hymgyrch gyfathrebu ar *www.SustainWales.com*. Parhaodd y sefydliad i ddatblygu perthynas waith dda â'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru a chyfrannu at Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Parhaodd Cynnal Cymru â'i amcanion cyffredinol o ledaenu'r neges datblygu cynaliadwy i unigolion a grwpiau ledled Cymru hefyd.

Llwyddodd **Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy** i gyflawni ei raglen waith rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2008, yn genedlaethol ac yn fwy lleol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Datblygodd y sefydliad ei raglen o weithdai addysg i gyfoedion ar nifer o faterion datblygu cynaliadwy. Trefnodd Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy amryw gyfarfodydd, rhai mawr a bach, a ddenodd aelodau newydd ac a roddodd gyfle i bobl ifanc fod yn rhan o'r drafodaeth am faterion datblygu cynaliadwy. Bu cynrychiolydd Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy yn rhan o'r broses o ddewis Hyrwyddwyr Newid yn yr Hinsawdd i Gymru, a chyfarfu'r Fforwm hefyd â'r Ddraig Ffynci i drafod cydweithredu ar faterion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Penodwyd Gweithiwr Datblygu cenedlaethol gan y Fforwm i'w gwneud yn bosibl i'r sefydliad gydweithredu mwy ag eraill.

Y **Comisiwn Datblygu Cynaliadwy** yw cynghorydd annibynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu cynaliadwy. Dros gyfnod yr adroddiad hwn mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi cwblhau adolygiadau pwysig o ynni'r llanw, Ofgem, archfarchnadoedd, a'r rheoleiddwyr sydd wedi cyfrannu i ddatblygu polisïau yng Nghymru. Mae'r adolygiad o ynni'r llanw, "Turning the Tide", a lansiwyd yng Nghaerdydd, yn amlinellu'r fframwaith polisi ar gyfer manteisio ar botensial amrediad llanw ym moryd Hafren. Bu Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn rhan o drafodaeth ynglŷn â hedfan a arweiniodd at yr argymhellion a nodwyd yn "Contested Evidence".

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy hefyd wedi helpu Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu a hwyluso rhaglen waith Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ac wedi arwain seminarau polisi yn seiliedig ar ddefnyddio a chynhyrchu cynaliadwy, systemau bwyd cynaliadwy a "Stock Take" sef yr adolygiad o arbed ynni mewn cartrefi. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ynghyd â Chomisiwn Dylunio Cymru hefyd wedi arwain proses gyda'r nod o greu "clymblaid y rhai parod" i gyflymu'r broses o sicrhau bod yr holl waith adeiladu newydd yng Nghymru yn ddi-garbon. Mae hefyd wedi parhau i helpu'r GIG i gyrraedd safon iechyd y dinesydd corfforaethol.

# Adran 3: Adroddiad ar ein gweithgareddau ar lefel ryngwladol i hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy

## Cymru o blaid Affrica - Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol

Ers lansio'r Fframwaith ym mis Hydref 2006, ac ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf ar Ddatblygu Cynaliadwy, mae'r mentrau allweddol wedi bod yn gwneud cynnydd da ac mae nifer o brosiectau cyffrous eraill wedi cael eu cynorthwyo. Cytunwyd hefyd ar gynnydd yn y gyllideb i gefnogi'r gwaith hwn - o £500,000 i £700,000 o 2008-09 ymlaen.

Erbyn mis Mawrth 2008:

*Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol:* Roedd y grŵp cyntaf o staff y sector cyhoeddus wedi dechrau ar eu lleoliadau 8 wythnos mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn Affrica Islaw'r Sahara. Roedd y gwirfoddolwyr hyn yn dod o awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Bu'r lleoliadau cyntaf yn Zambia a Chamerŵn ac roedd yr adborth cychwynnol yn gadarnhaol iawn. Mae'r cynllun, mewn partneriaeth â RhNgCC a'r Gwasanaethau Gwirfoddol Dramor, yn gyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan ddatblygu eu sgiliau arwain a chyfrannu at ddatblygu rhyngwladol.

*Prosiect Cymunedau Seren Aur:* Mae'r prosiect wedi tyfu gyda chryn frwdfrydedd gan gymunedau ledled Cymru a'u cymunedau partner yn Affrica. Erbyn hynny roedd dros 30 o gysylltiadau cymunedol yn rhan o'r prosiect ac roedd wedi ennill cydnabyddiaeth swyddogol gan Raglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig. Roedd y cysylltiadau cymunedol wedi ffurfio partneriaethau gwrthdlodi ac roeddent wrthi'n gweithio ym meysydd addysg i blant, iechyd, bywoliaethau, a chytgord cymdeithasol. Bwriedir cynnal seremoni wobrwyo ar 4 Awst 2008 yn yr Eisteddfod Genedlaethol lle y bydd y Prif Weinidog yn cyflwyno gwobrau 'seren aur' a chlod i'r partneriaethau cymuned cyntaf sydd wedi dangos effaith lwyddiannus yn un o'r meysydd allweddol.

Mae'r prosiect hwn, sydd wedi'i anelu at ddatblygu cysylltiadau effeithiol rhwng cymunedau yng Nghymru a chymunedau yn Affrica yn cael ei ariannu gan raglen Cymru o blaid Affrica Llywodraeth y Cynulliad o dan arweiniad Tasglu Nodau Datblygu'r Mileniwm Cymdeithas Sifil Cymru a BUILD UK (Building Understanding through International Links in Development). Mae wedi'i reoli ac wedi'i gyflawni gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

*Masnach Deg:* Roedd Cymru bron â bodloni'r meini prawf i fod yn Genedl Masnach Deg. Cynhelir yr ymgyrch gan Fforwm Masnach Deg Cymru ac fe'i hariennir gan Lywodraeth y Cynulliad. Bwriadwyd cynnal uwchgynhadledd ryngwladol yng Nghymru ym mis Mehefin 2008, yn cynnwys cynhyrchwyr Masnach Deg ac eraill o'r mudiad Masnach Deg ryngwladol, i roi Cymru wrth wraidd y ddadl ar Fasnach Deg a dathlu cyflawni statws Cenedl Masnach Deg.

Cyhoeddwyd cyngor i'r sector cyhoeddus ar gaffael Masnach Deg yng Nghanllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru. Roedd arian Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn helpu Canolfan Cydweithredol Cymru i weithio gyda busnesau a chyflogwyr i'w hannog i gefnogi a defnyddio cynhyrchion Masnach Deg.

*Cysylltiadau Iechyd/Gefeillio Ysbytai:* Roedd ceisiadau newydd yn cael eu hystyried i Gronfa GIG Cymru gwerth £50,000 (a weinyddir gan Is-adran Adnoddau Dynol GIG Llywodraeth y Cynulliad) i annog cyrff ac ysbytai GIG Cymru i feithrin cysylltiadau ystyrlon â'u cymheiriaid yn Affrica Islaw'r Sahara. Roedd nifer y bobl a oedd am fod yn rhan o'r gwaith hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers y flwyddyn flaenorol, a daeth dros 150 o bobl i gynhadledd lwyddiannus ym mis Mehefin 2007 i'r rhai â diddordeb mewn cysylltiadau iechyd/ysbytai. Roedd canllawiau eisoes wedi cael eu rhoi i Ymddiriedolaethau'r GIG yn eu cynghori i drin bod yn rhan o gynlluniau o'r fath fel cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad proffesiynol parhaus eu staff. Mae grŵp Cysylltiadau Iechyd Cymru o blaid Affrica wedi'i ffurfio i helpu i gydlynu'r gwaith hwn a rhannu syniadau a chynlluniau.

*Cymunedau alltud:* Roedd arian wedi cael ei roi i Gymdeithas Flaengar y Somaliaid i feithrin cysylltiadau rhwng y gymuned Somalïaidd yng Nghymru a chymunedau yn Somaliland. Mae gwaith wedi dechrau ar ffurfio cysylltiadau cymunedol, addysg/ysgol ac iechyd, ac ennyn diddordeb cymuned alltud y Somaliaid ym mentrau rhaglen Cymru o blaid Affrica.

*Dolen Cymru:* Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi arian i Dolen Cymru (y Ddolen Gyswllt rhwng Cymru a Lesotho) i gyflogi swyddog codi arian er mwyn i'r sefydliad gael adnoddau ychwanegol i hyrwyddo ei weithgareddau cyswllt, yn enwedig ym maes addysg. Roedd y rhaglen lleoliadau i athrawon, a ariennir hefyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn parhau'n llwyddiannus. Dechreuodd 9 o athrawon o Gymru ar eu lleoliad 6 mis yn Lesotho ym mis Ionawr 2008 i roi cymorth o ran addysgu a hyfforddiant i athrawon.

*Sefydliadau Datblygu Rhyngwladol Cymdeithasol Sifil:* Mae Rhwydwaith Sector Datblygu Rhyngwladol Cymru wedi datblygu gwefan i sefydliadau datblygu rhyngwladol yng Nghymru i gael gwybodaeth a chymorth i rwydweithio. Mae arian Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi hwyluso digwyddiad rhwydweithio i helpu sefydliadau anllywodraethol bach a chanolig ym maes datblygu rhyngwladol yng Nghymru i rannu profiadau a chyngor a nodi eu hanghenion hyfforddi a datblygu.

*Grantiau bach eraill:* Roedd arian o gyllideb Cymru o blaid Affrica Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi helpu:

- St John Cymru i hyfforddi hyfforddwyr Cymorth Cyntaf yn Zambia;
- RedR/IHE (Cofrestr o Beirianwyr ar gyfer Cymorth mewn Argyfwng/Cyfnewidfa Iechyd Ryngwladol) ac Engineers Without Borders i gynnal cyfres o gyrsiau hyfforddiant mewn cymorth dyngarol i'w haelodau, gan feithrin eu sgiliau a'u gallu i ymateb i argyfyngau a thrychinebau rhyngwladol;
- Engineers for Overseas Development (EFOD) ac Ymddiriedolaeth Saltpeter er mwyn ei gwneud yn bosibl i 10 o aelodau EFPD gael mwy o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad drwy helpu Ymddiriedolaeth Saltpeter i gwblhau adeiladu Canolfan Feddygol yn Uganda;
- Rhwydwaith Ymchwilwyr Datblygu Cymru i drefnu cyfres o seminarau gydag academyddion, sefydliadau anllywodraethol a grwpiau/unigolion â diddordeb i hybu'r drafodaeth am faterion allweddol o ran Cymru o blaid Affrica;
- Grassroots Theatre Company o Zimbabwe, sydd wedi defnyddio ei theatr i gefnogi datblygu cymunedol mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru a gwaith allgymorth ar HIV/AIDS gartref;
- Mencap Cymru/Dolen Cymru i anfon gwirfoddolwyr gydag anableddau dysgu i gynorthwyo gwaith hyfforddiant gyda Chymdeithas Lesotho dros Bobl o dan Anfantais Feddyliol yn Lesotho, a hwyluso ymweliadau o Lesotho i Gymru.

*Cynllun Grant Cymru o blaid Affrica (2008-09):* Lansiodd Llywodraeth y Cynulliad Gynllun Grant Cymru o blaid Affrica ar ddiwedd 2007 gyda'r nod o ariannu sefydliadau yng Nghymru sy'n gwneud cyfraniad i ddatblygu rhyngwladol neu gymorth mewn argyfwng. Daeth 58 o geisiadau i law ac roeddent yn cael eu hasesu ar gyfer ariannu yn 2008-09. Nod y Cynllun Grant oedd:

1. annog parodrwydd ar gyfer argyfwng rhyngwladol yng Nghymru a galluogi a chefnogi gwirfoddoli priodol ar adeg argyfwng;
2. cynorthwyo cymunedau alltud yng Nghymru yn eu hymdrechion i ymateb i argyfyngau rhyngwladol yn eu mamwlad;
3. meithrin gallu sefydliadau anllywodraethol datblygu rhyngwladol yng Nghymru a helpu i gydlynu'r sector cyfan er mwyn atgyfnerthu effaith Cymru ar gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm;
4. datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng cymunedau yng Nghymru ac Affrica Islaw'r Sahara.

# Adran 4: Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy

Dengys Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Cymru 2008:

- fod 15 o 39 o asesiadau o ddangosyddion yn dangos gwelliant amlwg;
- fod 12 o 39 o asesiadau o ddangosyddion yn dangos dim newid neu ychydig newid;
- fod 6 o 39 o asesiadau o ddangosyddion yn dangos dirywiad amlwg;
- nad oes data digonol neu nad oes data cymaradwy ar gyfer 6 o 39 o asesiadau o ddangosyddion.

Rydym ar hyn o bryd yn cyflwyno adroddiad ar 4 o'r 5 prif ddangosydd o ddatblygu cynaliadwy, y bwriedir iddynt gyda'i gilydd roi trosolwg o gynnydd tuag at ddatblygu cynaliadwy. Dengys y rhain:

- O ran cynhyrchiant economaidd, yn 2006, cafwyd GYC o £42.7 biliwn i Gymru, 4.9 y cant yn uwch nag ydoedd yn 2005. Yn 2006 cafwyd GYC o £14,396 y pen, cynnydd o 4.4 y cant o gymharu â 2005;
- O ran cyfiawnder cymdeithasol, yn y cyfnod rhwng 2003-04 a 2005-06, roedd 21 y cant o'r boblogaeth yn rhan o aelwydydd ag incwm cymharol isel cyn costau tai. Ar ôl i gostau tai gael eu hystyried, yn y cyfnod rhwng 2003-04 a 2005-06 roedd 22 y cant o'r boblogaeth yn rhan o aelwydydd ag incwm cymharol isel;
- O ran bioamrywiaeth, yn 2005, roedd 34 y cant o rywogaethau â blaenoriaeth yng Nghymru yn sefydlog neu'n cynyddu o gymharu â 22 y cant yn 2002. Canran y rhywogaethau â blaenoriaeth a oedd yn gostwng oedd 18 y cant yn 2005 a 2002. Yn 2005, roedd 36 y cant o gynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru yn sefydlog neu'n cynyddu o gymharu â 30 y cant yn 2002. Cynyddodd canran y cynefinoedd â blaenoriaeth a oedd yn dirywio yn 2005 o 46 y cant yn 2002 i 59 y cant;[1]
- O ran Ôl Troed Ecolegol Cymru, amcangyfrifir ôl troed ecolegol i Gymru gyfan o 5.16 hectar byd-eang y pen yn 2003. Mae'r ffigur hwn bron deirgwaith yn fwy na'r gyfran gyfartalog o'r ddaear. Yn 2001 cafwyd ôl troed ecolegol i Gymru gyfan o 5.25 hectar byd-eang y pen. Fodd bynnag, er y defnyddir yr un fethodoleg i gyfrifo'r ôl troed, mae gwelliannau i'r dull cyfrifo yn golygu nad yw ffigurau ôl troed ecolegol 2001 a 2003 yn gwbl gymaradwy.

[1] Y rheswm dros y cynnydd ymddangosiadol yn nifer a chanran y cynefinoedd sy'n dirywio rhwng 2002 a 2005 yw gwybodaeth gynyddol. Roedd 5 cynefin na chyflwynwyd adroddiad yn eu cylch yn 2002 oherwydd gwybodaeth annigonol ond wedyn cofnodwyd eu bod yn dirywio yn 2005. Hefyd, rhwng 2002 a 2005 daeth dau gynefin arall yn rhan o gynllun gweithredu bioamrywiaeth, a chofnodwyd bod y ddau yn dirywio.

# Adran 5: Y diweddaraf am yr adolygiad o effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy

Yn yr adroddiad y llynedd esboniwyd y byddem yn cyhoeddi adroddiad a fyddai'n cynnwys asesiad o ba mor effeithiol fu eu cynigion [Gweinidogion Cymru] (fel y'u nodwyd yn y cynllun datblygu cynaliadwy ac fel y'u gweithredwyd) o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Roedd yr adroddiad yn un o nifer o brosiectau a oedd yn edrych ar y ffordd y cyflawnir datblygu cynaliadwy. Ystyriodd yr adolygiad statudol y ffordd y mae datblygu cynaliadwy wedi cael ei hyrwyddo drwy edrych tuag allan. Yn y cyfamser, ystyriodd Cynnal Cymru, sef fforwm datblygu cynaliadwy Cymru, safbwyntiau cymdeithasau sifil ynglŷn â datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac ailgyfrifwyd ôl troed ecolegol Cymru drwy fesur baich amgylcheddol Cymru.

Yn yr adroddiad y llynedd nodwyd y byddem yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith ar ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol ar ôl i'r adolygiad o effeithiolrwydd ddod i ben. Dylanwadwyd ar benderfyniad y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ail-lunio'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy gan yr adolygiad statudol, astudiaeth Cynnal Cymru ac ailgyfrifo Ôl Troed Ecolegol Cymru[2]. Yn yr Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf (2008/09), byddwn yn amlinellu canlyniad yr astudiaethau hyn yn fanylach.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfarfod â chydweithwyr adrannol yn ogystal â rhanddeiliaid allanol i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy nesaf. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn hydref 2008 pan fydd cynllun drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Bydd y cynllun newydd, o'r enw Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn amlinellu sut y bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru wella bywydau'r cymunedau tlotaf ac ar yr un pryd sicrhau ein bod yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r blaned a dim mwy. Bydd ein cynigion newydd yn sail i Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

[2] Nid oedd astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar integreiddio Datblygu Cynaliadwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael ei chyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

# Adran 6: Sylwadau gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar gynnydd yn erbyn blwyddyn olaf Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-07. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb gwerthfawr o'r ffordd y mae'r cynllun datblygu cynaliadwy wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi cydnabod ers amser bod y ddyletswydd statudol i lunio cynllun i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wedi galluogi Cymru i chwarae rhan arweiniol yn y DU. Mae'r adroddiad eleni yn tynnu sylw at y cyfraniad y gall cenedl fach ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yn rhyngwladol drwy raglen arloesol Cymru o blaid Affrica. Fodd bynnag, mae disgwyliadau ar arweinwyr ac mae angen i ni fod yn glir ynglŷn â'r heriau a amlygwyd yn yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn rhoi darlun o nifer o fentrau clodwiw - gan gyflwyno adroddiad ar tua 91 o gamau gweithredu ar wahân - felly nid oes rhyfedd bod yr adroddiad hwn ar adegau yn darllen fel cyfres o ddatganiadau bach digyswllt am wahanol fentrau, yn hytrach na dadansoddiad cydlynol o gynnydd a'r heriau sydd eto i'w hateb. Nid yw'r cysylltiad rhwng mentrau a ddisgrifir yn yr adroddiad a'r cyfraniad i ddatblygu cynaliadwy bob amser yn glir. Felly, yn gyntaf, mae angen i ni sicrhau bod y clystyrau o fesurau a gweithgareddau gyda'i gilydd yn arwain at fwy o gynaliadwyedd.

Mae Ôl Troed Ecolegol wedi'i ddiweddaru i Gymru bellach yn rhoi sylfaen hirdymor ar gyfer cynnydd, ond mae'n rhaid i'r cynllun newydd gynnig gwell templed ar gyfer mesur effeithiau polisïau yn ei erbyn mewn adroddiadau yn y dyfodol. Yn yr un modd mae'n bwysig bod modd mesur effeithiau gweithrediadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'u meincnodi yn erbyn arfer gorau ledled llywodraeth y DU. Felly, yn ail, mae angen i adroddiadau yn y dyfodol gyfleu'n well sut rydym yn ei wneud, beth sy'n gweithio a ble mae'r heriau, mewn ffordd sy'n hawdd ei chyfleu ac un sy'n ennyn diddordeb pob un ohonom sy'n gyfrifol am gyfrannu at yr atebion.

Mae'r dadansoddiad annibynnol o effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy cyfredol wedi pwysleisio'r angen i gydgysylltu'r neges ledled y Llywodraeth. Mae datblygu cynaliadwy yn gofyn i ni fynd i'r afael â materion 'systemau cyfan', cydnabod cymhlethdod gwyddonol a chydnabod y rhwystrau a'r gwrthbwysau rhwng anghenion croes. Golyga hyn ddwyn ynghyd bobl na fu angen o bosibl iddynt gydweithredu â'i gilydd erioed, a hynny o fewn y Llywodraeth lle mae meddylfryd "seilo" yn amlwg, a thrwy rôl y Llywodraeth o ran dwyn y sector cyhoeddus, preifat a chymunedol ynghyd. Mae gweithredu integredig yn sicrhau bod adrannau'r llywodraeth yn atgyfnerthu ymdrechion ei gilydd ac yn manteisio'n llawn ar rym cysondeb, ailadrodd ac ymhelaethu. Yn drydydd, felly, bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol amlinellu'r hyn a ddysgwyd ar hyd y ffordd, gan nodi pa fentrau

a sbardunau i newid sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pham. Wrth i gyllidebau fynd yn dynnach, mae'n hanfodol ein bod yn dysgu'r gwersi ac yn sicrhau'r gwerth mwyaf o weithgarwch i wneud gwahaniaeth i'n cynaliadwyedd fel cenedl.

Yn olaf, ni all y Llywodraeth wneud y newidiadau sydd eu hangen ar ei phen ei hun, ac ni all fod yn atebol am effeithiau ein penderfyniadau o ddydd i ddydd ynglŷn â'n ffordd o fyw. Felly mae angen i adroddiadau yn y dyfodol ystyried ymhellach sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi annog ac wedi cefnogi pobl sy'n ceisio gwneud y peth iawn i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Mae gennym y fantais o fod yn wlad fach ac iddi gysylltiadau da felly dylai fod yn bosibl symud yn gynt drwy well ymgysylltu ynghyd â gweithredu integredig. Ond eto mae bylchau amlwg rhwng uchelgais polisïau a chyflawni ar lawr gwlad - boed hynny yng nghyswllt ynni adnewyddadwy neu adeiladau cynaliadwy. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny y llynedd gwelwyd cynnydd sylweddol iawn mewn gweithgarwch ar lawr gwlad o du cwmnïau yn y sector preifat a thrwy fentrau yn y gymuned. Yr her i'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd fydd cysylltu'r egni hwn "o'r bôn i fyny" â strategaeth gan y Llywodraeth sy'n rhoi mwy o bwyslais ar "y brig i lawr". Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn edrych ymlaen at roi dadansoddiad manylach o adroddiadau cynnydd yn y dyfodol.

# Atodiad A

## Ymrwymiadau o'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Rhoi cynllun Arbed Ynni Cymru ar waith ar draws pob sector erbyn mis Tachwedd 2004 | Un o ganlyniadau allweddol y gwaith hwn fu sefydlu Porth Arbedion Ynni Cymru. Mae'r Porth yn lledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd ynglŷn â sut y gall eu defnydd o ynni gyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy. Mae'n berthnasol i'r sectorau preswyl, busnes, cyhoeddus a chymunedol.<br><br>Mae cynllun Arbed Ynni Cymru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chaiff ei weithredu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni: un o ymrwymiadau Cymru'n Un. Wedyn bydd ymgynghoriad arno ar ddiwedd hydref 2008. Mae'r porth hefyd yn cael ei adolygu. |
| Datblygu ein polisïau ynni glân yng Nghymru, drwy gyhoeddi a gweithredu cynllun gweithredu ynni glân erbyn mis Rhagfyr 2004, a fydd yn cynnwys rhoi rôl fwy blaenllaw i Gymru wrth ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau adnewyddadwy | Cafwyd mwy na 120 o ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Trywydd Ynni Adnewyddadwy. Bydd y rhain ac ymgynghoriadau arfaethedig ar Gynllun Gweithredu Bio-ynni a Chynllun Gweithredu Morol yn helpu i lunio Strategaeth Ynni gyffredinol i Gymru. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae'r astudiaeth ddichonoldeb o Ynni'r Llanw ar Afon Hafren yn golygu Asesiad Amgylcheddol Strategol o wahanol opsiynau o ran cynhyrchu trydan o ynni'r llanw, a ffrydiau gwaith ychwanegol ar y meysydd allweddol canlynol:<br><br>Amgylcheddol, Peirianneg a thechnegol, Economaidd, effeithiau Rhanbarthol, Cynllunio a chaniatadau, ac ymgysylltu â Rhanddeiliaid.<br><br>Cyhoeddwyd y Trywydd Ynni a'i bwyslais ar Ynni Adnewyddadwy ar gyfer ymgynghoriad ym mis Chwefror 2008. Cyflwynwyd nifer fawr o ymatebion ac maent yn cael eu dadansoddi. Bwriedir cyhoeddi strategaeth Ynni gyffredinol ar ddechrau 2009. |
| Datblygu cynlluniau adnewyddadwy cymunedol a phrosiectau ynni arloesol drwy randdeiliaid ac asiantaethau gyda chymorth ariannol Ewropeaidd erbyn mis Ionawr 2005 | Mae nifer o gynigion ar gyfer cynhyrchu ynni a fydd o fudd i gymunedau ar gamau amrywiol yn eu datblygiad.<br><br>O ran y dyfodol, fel y nodwyd yn y ddogfen, Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru, bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi cynlluniau gwynt, biomas a thrydan dŵr ar raddfa gymunedol drwy ddarparu grantiau drwy fframwaith newid yn yr hinsawdd rhaglen y Cronfeydd Cydgyfeirio.<br><br>Y nod yw hyrwyddo twf busnesau cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol yn y dyfodol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
| --- | --- |
| | Bydd un prosiect - 'Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Gymunedol' - yn ei gwneud yn bosibl sefydlu neu ddatblygu ymhellach tua 20 o fentrau cymdeithasol cynaliadwy yn seiliedig ar osodiadau ynni adnewyddadwy newydd ar raddfa gymunedol.<br><br>Bydd y prosiect yn rhoi cymorth technegol i helpu i feithrin gallu a datblygiad mentrau cymdeithasol ac yn rhoi cyngor lleol ar ynni adnewyddadwy ynghyd â grantiau ar gyfer astudiaethau dichonoldeb a gosodiadau.<br><br>Mae Syniad Prosiect Cydgyfeirio wedi cael ei ddatblygu i gefnogi'r uchelgais o sicrhau bod pob adeilad newydd yn ddi-garbon. Caiff hwn ei hyrwyddo ar wefan WEFO yn http://www.wefo.cymru.gov.uk/<br><br>Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 hefyd wedi cael eu datblygu i gynnwys darpariaeth ar gyfer 'arloesi' a 'datblygu economaidd cymunedol', y gallai'r naill neu'r llall alluogi cynnal prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
| --- | --- |
| Gydag Ymddiriedolaeth Garbon Cymru, y WDA ac eraill, gweithredu newid sylweddol i'r ffordd y caiff y technegau effeithlonrwydd ynni diweddaraf eu mabwysiadu a phroses o greu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach mewn adeiladau o bob math yng Nghymru. Bydd hyn yn adeiladu ar astudiaeth yr Ymddiriedolaeth Garbon o broffil y defnydd a wneir o ynni ac allyriadau carbon yng Nghymru, a gyhoeddir yn ystod gwanwyn 2005 | Ar gyfer y **Stoc Bresennol**, mae'r Ymddiriedolaeth Garbon drwy'r fenter Cyflymu Adeiladu Carbon Isel yn cynorthwyo dau brosiect peilot yng Nghymru. Nod y prosiect yw dangos y gellir cynnal prosiectau adnewyddu mewn ffordd sy'n lleihau allyriadau carbon o'r adeilad i'r eithaf. Caiff astudiaethau achos eu paratoi ar ddiwedd y prosiectau.<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda darparwyr tai cymdeithasol i dreialu nifer o atebion ynni adnewyddadwy/amgen o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES).<br><br>Ar gyfer **Adeiladau Newydd,** cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ym mis Chwefror 2007 ei huchelgais o sicrhau bod pob adeilad newydd o 2011 yn ddi-garbon ac, i ddechrau ar y daith hon cyhoeddwyd y bydd safon 'rhagorol' BREEAM, neu safon gyfatebol, yn ofynnol ar gyfer pob adeilad newydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dylanwadu arno drwy arian uniongyrchol, buddsoddi neu dir. Mae hyn yn cynyddu'r galw am ficrogynhyrchu, a thrwy hynny'n rhoi hwb i'r cyflenwad, gwelliannau mewn technoleg a fforddiadwyedd.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru, mewn partneriaeth ag Adran Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi dechrau ar brosiect i helpu i gyflawni datblygiadau di-garbon ledled Cymru. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Bydd camau gweithredu a mentrau yn y dyfodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni.<br><br>Cyhoeddwyd papur ymgynghori yn 2007 yn amlinellu cynigion i lacio ar reolaethau cynllunio i ddeiliaid tai a oedd am osod cyfarpar microgynhyrchu. Mae ymatebion i hwn yn cael eu hystyried.<br><br>Ar y cyd â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil i'r potensial i lacio ar reolaethau cynllunio ar gyfer cyfarpar microgynhyrchu ar adeiladau masnachol.<br><br>Mae treial 12 mis o fesuryddion deallus wedi dechrau gyda nifer o fusnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i ddangos manteision mesur, monitro a thargedu arbedion ynni. (Ionawr 2008) |
| Gyda'r Adran Masnach a Diwydiant, yr Ymddiriedolaeth Garbon ac eraill, atgyfnerthu'r sylfaen wybodaeth/ ymchwil yng Nghymru ar gyfer systemau ynni morol ac economi hydrogen sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cymryd rhan mewn asesiad amgylcheddol strategol o ynni adnewyddadwy ar gyfer dyfroedd Cymru-erbyn canol 2005 | Mae prosiect ymchwil morol 3 blynedd yn mynd rhagddo. Mae Grŵp Llywio wedi cael ei sefydlu gyda rhanddeiliaid Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i oruchwylio'r gwaith. Disgwylir i gam un gael ei gwblhau yn ystod 2008. Bydd fframwaith strategol ynni morol yn cael ei baratoi ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Sicrhau bod y polisïau a ddatblygir gennym ar ffermio, coedwigaeth a chefn gwlad yn helpu i ddiogelu'r carbon sy'n cael ei storio ym mhriddoedd Cymru | Cyhoeddwyd adroddiad ymchwil pwysig, 'Amcangyfrif Carbon mewn Priddoedd Organig - Storio ac Allyriannau' gydag argymhellion ar ddefnydd tir ym mis Mawrth 2007, ac mae ei argymhellion yn cael eu hymgorffori yn yr adolygiad o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y Cynllun Datblygu Gwledig newydd.<br><br>Mae mentrau ar raddfa maes a dalgylch yn cael eu datblygu a fydd yn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth rheoli carbon mewn pridd. Caiff argymhellion rheoli ECOSSE eu gweithredu ar wahanol lefelau ar nifer o systemau fferm, mae'r amcanion yn cynnwys; asesiad o ymarferoldeb cymhwyso argymhellion rheoli, dilysu modelau drwy gasglu data a gwaith treialu ar gyfer dylunio cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol. |
| Sicrhau bod systemau goleuo ar gyfer cefnffyrdd yn defnyddio technolegau adnewyddadwy er mwyn sicrhau o leiaf 20% o arbedion ynni | Mae contract dwy flynedd (07-08 a 08-09) ar waith i gyflenwi 100% o ynni gwyrdd ar gyfer holl oleuadau stryd y Cynulliad, fel rhan o Gonsortiwm Prynu Ynni Goleuadau Stryd Cymru. Mae'r contract wedi sicrhau mai dim ond os bydd cynigion ar gyfer cynlluniau newydd a chynlluniau adnewyddu yn bodloni meini prawf economaidd ac amgylcheddol y caniateir iddynt fynd rhagddynt. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Comisiynu astudiaeth i ymchwilio i ddichonoldeb gwrthbwyso'r carbon a gynhyrchir gan draffig sy'n deillio o gynlluniau ffyrdd y Cynulliad | Derbyniwyd yr adroddiad ar yr ymchwil ychwanegol i asesu effeithiau polisïau trafnidiaeth ac ymyriadau trafnidiaeth arfaethedig yng Nghymru o ran allyriadau carbon ym mis Rhagfyr 2007. Defnyddiwyd canfyddiadau'r adroddiad i lywio Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sydd i'w chyhoeddi ym mis Mai 2008.<br><br>Bydd camau gweithredu allweddol y Strategaeth yn:<br>• Arwain at ddatblygu dulliau trafnidiaeth sy'n effeithlon o ran carbon;<br>• Creu polisïau ar ddefnydd tir sy'n ystyried allyriadau sy'n cyfateb i garbon;<br>• Annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried goblygiadau nwyon tŷ gwydr;<br>• Lleihau effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth. |
| Rhwng nawr a 2007 cydweithio â datblygwyr, cleientiaid adeiladu a noddwyr, Comisiwn Dylunio Cymru ac Adeiladu Arbenigrwydd i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn diwallu ein nodau datblygu cynaliadwy | Disgwylir i grŵp cynghori technegol sy'n paratoi canllawiau ar ddatganiadau dylunio statudol arfaethedig gyhoeddi drafft ar gyfer ymgynghoriad yn haf 2008.<br><br>Mae Gwasanaeth Adolygu Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru yn cynnig cyngor am ddim ar gynaliadwyedd prosiectau i'r diwydiant datblygu. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn parhau i hyrwyddo a lledaenu arfer gorau drwy ei Fforymau i Gleientiaid, ei Glybiau Arfer Gorau, ei Rwydwaith Gwella Perfformiad, ei Raglen o Brosiectau Arddangos a'i Raglen Gwastraff Adeiladu.<br><br>Mae'n ofynnol i bob adeilad newydd o dan Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 gyflawni safon "rhagorol" BREEAM. |
| Cyhoeddi Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth gwell yn gynnar yn 2005 | Cafodd TAN 18 ei ddiwygio a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2007 gan roi cyngor polisi ar drafnidiaeth a chynllunio - i Awdurdodau Lleol sy'n paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn ogystal â datblygwyr.<br><br>Ar yr un pryd, cyhoeddwyd 'Llawlyfr Strydoedd', a oedd yn rhoi canllawiau dylunio i ymarferwyr sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, darparu a chymeradwyo strydoedd preswyl newydd, ac addasu rhai sy'n bodoli eisoes. Roedd y ddogfen hon yn disodli Bwletin Dylunio 32.<br><br>Mae Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn helpu i arfarnu cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau o ran eu heffeithiau ar yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Yn hydref 2007 trefnodd yr Uned Cynllunio Trafnidiaeth weithdai WelTAG i randdeiliaid technegol yn ardaloedd consortia trafnidiaeth Cymru. Yna cafodd WelTAG ei ddiwygio yn barod i'w lansio ar ôl cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. |
| Defnyddio'r is-gymal datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol er mwyn ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn polisïau cynllunio. Cyhoeddir canllawiau Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru ym mis Medi 2005, ac wrth i Nodiadau Cyngor Technegol gael eu diwygio byddant yn ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy | Mae Canllawiau ar Ddatblygu Cynaliadwy i Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n gynaliadwy wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.<br><br>Mae Nodiadau Cyngor Technegol diwygiedig/newydd sy'n ystyried egwyddorion cynaliadwyedd yn llawn yn cynnwys TAN Glo drafft, TAN5 ar Warchod Natur, TAN13 ar Dwristiaeth, TAN16 ar Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored a TAN18 ar Drafnidiaeth. |
| Arfarnu fframwaith trafnidiaeth diwygiedig i Gymru yn ffurfiol yn erbyn ein fframwaith datblygu cynaliadwy | Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn disodli Fframwaith Trafnidiaeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn dilyn arweiniad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a ddatblygwyd drwy ddefnyddio'r egwyddorion a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn unol â Chynllun Gofodol Cymru. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn destun cyfres o arfarniadau, gan gynnwys Arfarniad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad o Effaith ar Iechyd, Arfarniad o Effaith ar Gydraddoldeb a WelTAG. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys cynlluniau trafnidiaeth cynaliadwy cymunedol a Chynlluniau Teithio i fusnesau/safleoedd. |
| Annog Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i gydweithio â datblygwyr i ddarparu tai cynaliadwy, cost isel, ar raddfa fach, o fewn y Parciau Cenedlaethol | Yn y Llythyr Grant Strategol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru at Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer 2007-08 pennwyd amcan iddynt gydweithio â'r awdurdodau unedol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a swyddogion galluogi tai gwledig i nodi dau gyfle newydd ym mhob Parc i sicrhau tai fforddiadwy newydd - erbyn 31 Mawrth 2008. Mae'r cynnydd canlynol wedi'i nodi.<br><br>**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**<br><br>Mae wedi cydweithio â Chyngor Sir Powys i gyflogi Swyddog Tai Fforddiadwy sydd wedi bod yn ei swydd ers mis Awst 2007.<br><br>Gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau unedol lleol sy'n bartneriaid, yn ogystal â Swyddog Galluogi Tai Gwledig De Powys/Gogledd Sir Fynwy, mae Awdurdod y Parc wedi nodi safleoedd ar gyfer Darparu Tai Fforddiadwy yng Nghrucywel, Bwlch a Llanbedr. Mae'r safle olaf hwn yn dir sy'n perthyn i Gyngor Sir Powys a chaiff yr elw o'i werthu ei roi yn rhodd i ariannu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol. Bydd y tri safle hyn gyda'i gilydd yn darparu tua 36 o gartrefi fforddiadwy. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**<br><br>Cwblhawyd saith uned yn 2007/08, mae 16 yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd ac mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 13 uned arall. Mae sawl trefniant posibl yn cael ei drafod, mae datganiad sefyllfa yn cael ei baratoi a'i adolygu'n rheolaidd.<br><br>Mae Swyddog Galluogi Tai Gwledig wedi'i benodi ac mae'n gweithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r Awdurdod Tai.<br><br>**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**<br><br>Parhawyd i gael ariannu rhannol am ddau Swyddog Galluogi Tai Gwledig a chwblhawyd 10 uned tai cymdeithasol yn Nyffryn Ardudwy (Tai Eryri) a chwblhawyd 6 yn Aberdyfi (Tai Clwyd).<br><br>Penderfynwyd cymeradwyo 49 o unedau tai fforddiadwy eraill sef 67% o'r holl dai a gymeradwywyd yn 2007-08. |
| Defnyddio cyflwyniad yr Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'i integreiddio gyda'r Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau datblygu er mwyn sicrhau bod materion a chysylltiadau ehangach yn cael eu trafod yn briodol | Mae Canllawiau ar Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Arfarniadau Cynaliadwyedd wedi'u rhoi i awdurdodau cynllunio lleol ac maent yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae cynlluniau datblygu yn cael eu paratoi ledled Cymru.<br><br>Roedd gan bob un o'r Rhaglenni Gweithredol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 Asesiadau Amgylcheddol Strategol a oedd yn llywio datblygiad y rhaglenni a chawsant eu croesawu gan y Comisiwn Ewropeaidd. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Cymryd camau ar lygredd gwasgaredig, y mae'n ofynnol i ni eu cymryd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gan ymgynghori ar y mater yng nghyd-destun amaethyddiaeth ar ddiwedd 2004 | Lansiwyd ymgynghoriad ym mis Chwefror 2005 a daeth i ben ar 31 Mai 2005. Roedd consensws o blaid cefnogi mesurau cymorth gan Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai gan gynnwys rhoi cyngor, cymorth technegol a chymorth ariannol gyda seilwaith anghynhyrchiol.<br><br>O ganlyniad i'r gwaith hwn datblygwyd cynllun ffermio sensitif i ddalgylch afon wedi'i dargedu. Cyflwynwyd cynigion i Bwyllgor Monitro Rhaglen y Cynllun Datblygu Rhanbarthol yng Ngwanwyn 2008. Caiff cynigion wedi'u haddasu eu hailgyflwyno yn hydref 2008.<br><br>Mae rhaglen Gydgyfeirio ERDF hefyd yn cynnwys gweithgarwch dangosol o dan Rheoli Risg Amgylcheddol (Blaenoriaeth 5, Thema 1) ar gyfer lleihau llygredd gwasgaredig i ddŵr, tir ac aer i'r eithaf. |
| Rhoi deddfwriaeth y Cynulliad a chyngor ategol ar waith erbyn 1 Ionawr 2005 er mwyn gweithredu pecyn diwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE: gwneud y Taliadau Sengl i ffermwyr rhwng 1 Rhagfyr 2005 a 30 Mehefin 2006, yn amodol ar y ffaith eu bod yn bodloni'r gofynion trawsgydymffurfio (er enghraifft cyflawni nodau amgylcheddol) | Daeth Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Dŵr) 2004 i rym ar 1 Ionawr 2005. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae cyfundrefn trawsgydymffurfio'r PAC yn rhychwantu amrywiaeth o ddeddfwriaeth Ewropeaidd (diogelwch bwyd, amgylcheddol, iechyd/safonau lles anifeiliaid) yn ogystal â chadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. O ran yr olaf, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gosod fframwaith statudol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i addasu i adlewyrchu anghenion Cymru ac amaeth yng Nghymru.<br><br>Mae'r gyfundrefn drawsgydymffurfio yn gosod safon sylfaenol y mae'n rhaid i bob ffermwr ei chyrraedd er mwyn bod yn gymwys i gael Taliad Sengl y PAC. Y tu hwnt i'r ddarpariaeth sylfaenol honno, gall ffermwyr ymgymryd â mwy o weithgareddau rheoli tir yn gynaliadwy drwy gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd megis Tir Gofal a Tir Cynnal. Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth sydd ar gael o dan y Cynllun Ffermio Organig. |
| Agor cynllun amaeth-amgylchedd, sef Tir Cynnal, ar gyfer ceisiadau yn ystod gwanwyn 2005. Bydd y cynllun hwn yn cynnig cyfleoedd i ffermwyr yng Nghymru ymgymryd â gwaith amaeth-amgylchedd i ddiogelu cynefinoedd bywyd gwyllt, tirluniau traddodiadol a nodweddion hanesyddol ar eu tir, ac i leihau llygredd | Mae gwaith yn y cyfnod hwn wedi rhoi mwy o gyfleoedd i ffermwyr gymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol lle y gallent fod wedi methu â bodloni gofynion ymaelodi yn y gorffennol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Ar ddiwedd mis Mawrth 2008 lluniwyd 4,447 o gytundebau yn cwmpasu 297,380 hectar o dir, cynnydd o 12% o gymharu â mis Mawrth 2007, gan gynnwys 51,895 hectar o gynefin a 6,864 o adeiladau traddodiadol, cynnydd o 17% a 16% yn y drefn honno. |
| Ymgynghori ar Strategaeth Amgylcheddol yn ystod gwanwyn 2005 a'i chyhoeddi ar ei ffurf derfynol yn ystod hydref 2005. Bydd hyn yn datblygu'r gwaith ar y strategaethau pridd a bioamrywiaeth drafft ar gyfer Cymru | Cyhoeddwyd y Strategaeth Amgylcheddol a'r Cynllun Gweithredu cyntaf ar 17 Mai 2006. Mae ail Gynllun Gweithredu wedi cael ei ddatblygu. Mae un o ddeg prif thema'r Cynllun yn ymwneud â bioamrywiaeth. Mae Cynllun Gweithredu Priddoedd ar wahân yn cael ei ddatblygu i Gymru mewn ymateb i Gam Gweithredu ar wahân yn y Strategaeth Amgylcheddol.<br><br>Ochr yn ochr â hyn, ni chaniateir i gynhyrchion Cronfeydd Strwythurol effeithio'n negyddol ar ardaloedd gwarchodedig, e.e. safleoedd Natura 2000, a thrwy hynny mae'n helpu i warchod safleoedd dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol, gan gynnwys eu bioamrywiaeth. Lle y bo modd a lle y bo'n briodol, e.e. ar safleoedd, mae'r Cronfeydd Strwythurol yn ei gwneud yn ofynnol hyrwyddo bioamrywiaeth. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
| --- | --- |
| Cyflwyno asesiadau iechyd cyhoeddus llymach ar gyfer datblygiadau defnydd newydd o dir erbyn diwedd 2005 | Cafodd ymgynghoriadau cychwynnol ar bolisi cynllunio ar gyfer iechyd a lles eu dilyn gan ymgynghoriadau ar TAN Glo, gan gynnwys asesu'r effaith ar iechyd ar gyfer ceisiadau i gloddio glo. Dylai'r TAN gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach ar ddiwedd 2008/dechrau 2009. |
| Datblygu gweledigaethau ar gyfer dyfodol ardaloedd cefn gwlad a thirwedd ac ymgynghori arnynt, gan gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy mewn ffordd integredig. Yng ngoleuni'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn eu defnyddio i lywio eu gwaith wrth weithredu cynlluniau amaeth-amgylcheddol, arfer o ran coedwigoedd a choetiroedd, cyfundrefnau grantiau, cynllunio a rheoleiddio. Bydd ein Strategaeth Amgylcheddol yn datblygu'r camau ar gyfer gwneud hyn. | Mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn mynd i'r afael â materion tirwedd ac mae'n cynnwys cam gweithredu i sicrhau bod "ansawdd ac amrywiaeth cymeriad naturiol a hanesyddol ein tirwedd yn cael eu cynnal a'u gwella". Bydd y Strategaeth yn gweithredu ar hyn mewn ffordd ymarferol. |
| Hybu defnydd cynyddol o bren brodorol o Gymru ym myd adeiladu, drwy broject 'AXIS' Pren Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i ddechrau sy'n anelu at ddatblygu cynhyrchion pren o Gymru ar gyfer y farchnad adeiladu tai cymdeithasol | Daeth prosiectau AXIS/POWAXIS a ariannwyd o dan ERDF i ben ym mis Hydref 2007 gyda strategaeth ymadael i hysbysu cynulleidfaoedd allweddol o gynllun achredu 'Bright Green' Woodchain Wales ar gyfer cynhyrchwyr coed a sicrhau bod y manteision a gaiff busnesau bach a chanolig sy'n cymryd rhan eu hymestyn. Bu'r prosiectau'n llunio dulliau i fusnesau bach a chanolig ddatblygu arferion cynhyrchu cynaliadwy a mesur eu hôl troed economaidd ac amgylcheddol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae cadwyni cyflenwi lleol, egwyddorion caffael cynaliadwy ac adnoddau cynaliadwy oll yn cael eu hyrwyddo drwy Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013. Felly byddai hyn yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o goed cynaliadwy o Gymru. |
| Cynorthwyo perchenogion coetiroedd preifat yng Nghymru i sicrhau achrediad ar gyfer rheoli cynaliadwy drwy adolygu Gynllun Grant Coetir y Comisiwn Coedwigaeth | Mae cynllun grant coedwigaeth Coetiroedd Gwell i Gymru bellach yn gwbl weithredol a thalwyd cyfanswm o £3.2 miliwn yn ystod y flwyddyn. Cymeradwywyd 215 o gynlluniau rheoli yn cwmpasu 6,500 hectar o goetir ac mae 800 o geisiadau eraill wedi dod i law. Golyga hyn fod 15,000 hectar o goetir mewn dwylo preifat yng Nghymru bellach wedi cael eu hardystio'n goetir a reolir yn gynaliadwy. |
| Cydweithio â phartneriaid i ddatblygu fframwaith ar gyfer rheoli ein hamgylchedd morol mewn ffordd integredig | Mae'r adroddiad cynnydd cyntaf ar y Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol wedi cael ei baratoi gyda chymorth rhanddeiliaid morol yng Nghymru sy'n dangos cynnydd da tuag at Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.<br><br>Mae gweithgor Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru wrthi'n datblygu cyfres o ddangosyddion ym maes Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a fydd yn cynorthwyo gwaith monitro a chynnydd Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ledled Cymru. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â phartneriaid sy'n gweithio ar weithredu darpariaethau'r Mesur Morol sy'n ymwneud â Chynllunio Morol. |
| Gweithredu ein strategaeth coetiroedd, er mwyn sicrhau y bydd 50% o Goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'u trawsnewid o fod yn goetiroedd torri coed clir i fod yn goetiroedd gorchudd parhaol erbyn 2023. Bydd mynydd-diroedd sydd wedi'u clirio yn cael eu hailblannu gyda rhywogaethau sy'n briodol i safleoedd penodol; gan ystyried amcanion ecolegol lleol; y cydbwysedd carbon a'r potensial economaidd lle y bo hynny'n briodol; neu adael iddynt adfywio'n naturiol | Ar y trywydd iawn gyda 36% o ystad coetiroedd y Cynulliad bellach wedi'i dynodi i'w rheoli gan systemau gorchudd parhaol. Caiff pob ardal ei hailstocio yn ôl Cynlluniau Dylunio Coedwig cymeradwy ac mae o leiaf 30% o'r rhaglen flynyddol bellach yn defnyddio adfywio naturiol lle mae'r rhywogaethau priodol yn ddigon niferus i sicrhau ailstocio effeithiol. Mae'r gwaith o ddiwygio Strategaeth Coetiroedd y Cynulliad yn mynd rhagddo yn ôl yr arfaeth a bwriedir lansio'r ddogfen ymgynghori ym mis Gorffennaf 2008 gyda'r nod o gyflwyno'r drafft terfynol i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ar ddechrau 2009. |
| Dros y 3 blynedd nesaf, annog y diwydiant adeiladu i fabwysiadu mesurau lleihau gwastraff er mwyn cyflawni gostyngiadau sylweddol yn y gwastraff a gynhyrchir gan weithgareddau dylunio a safle, drwy barhau i hybu 'Canllaw Arfer Da Lleihau Gwastraff Adeiladu' a noddir gan y Cynulliad' | Daeth Rhaglen Gwastraff Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn gyfrifol am y gwaith o hyrwyddo lleihau gwastraff adeiladu.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn rhoi manylion am arfer gorau drwy ei Fforymau i Gleientiaid, ei Glybiau Arfer Gorau, ei Rwydwaith Gwella Perfformiad, ei Raglen o Brosiectau Arddangos a'i Raglen Gwastraff Adeiladu. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
| --- | --- |
| | Ymhlith y gweithgareddau prosiect a ariennir gan Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 mae hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys lleihau gwastraff a gynhyrchir i'r eithaf. Hyrwyddir yr hierarchiaeth gwastraff drwy'r holl weithgareddau. Bydd yn ofynnol i bob prosiect adeiladu lunio cynllun rheoli gwastraff safle. Bydd hyn yn statudol i brosiectau gwerth dros £200,000 yn 2008. |
| O nawr hyd at fis Chwefror 2006, darparu arian cyfatebol ar gyfer dwy swydd 'ymgynghorydd gwastraff' sydd wedi'u recriwtio gan Rwydwaith Arena o fewn eu prosiect y Ddraig Werdd a ariennir drwy Amcan Un i ddarparu cyngor i fusnesau yn yr ardal Amcan Un. Byddwn yn ystyried ffyrdd o ehangu'r cyngor hwn i ardaloedd nad ydynt yn rhai Amcan Un | Mae arian Amcan Un Rhwydwaith ARENA wedi dod i ben. Mae'r Cynulliad bellach yn rhoi cyngor arbenigol ar wastraff ac effeithlonrwydd adnoddau i fusnesau a'r sector cyhoeddus drwy raglen weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau a Rhaglen Envirowise. Bydd y ddwy ffrwd waith yn gweithredu yn y rhanbarthau cydgyfeirio a'r rhanbarthau nad ydynt yn rhai cydgyfeirio. |
| Hybu datblygu cynaliadwy i fusnesau drwy ddefnyddio offeryn diagnostig sy'n cael ei ddatblygu gan y WDA ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr offeryn hwn wedi'i ymgorffori yng ngwefan Llygad Busnes a Gwasanaeth Cynghori Busnes Cyffredinol newydd y WDA erbyn mis Rhagfyr 2004 | Mae gwaith y WDA wedi'i uno â Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach, ac mae ffordd newydd o roi cymorth i fusnesau wedi cael ei llunio o'r enw "Cymorth Hyblyg i Fusnes". Mae gwaith ar fin cael ei gwblhau ar ffordd newydd o hyrwyddo datblygu cynaliadwy i fusnesau fel elfen o'r cymorth newydd, Cymorth Hyblyg i Fusnes. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Yn datblygu canllawiau ar ddiwedd 2004 er mwyn i fenter gymdeithasol chwarae rôl amlycach ym maes cynhyrchiant cynaliadwy, er enghraifft cynhyrchu ynni adnewyddadwy, drwy is-grŵp gweithgor buddsoddiad cyfalaf | Ystyriodd y Cyd-weithgor Mentrau Cymdeithasol bapur ar Effeithlonrwydd Ynni ac Ynni Adnewyddadwy yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2007. Roedd hyn yn dilyn gweithdy ar Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni - Sector sy'n Tyfu yng Nghymru: Cynyddu'r Cyfraniad a'r Cyfleoedd i Fentrau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2007.<br><br>Ymhlith y buddiannau a ddaeth o'r Gweithdy roedd dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn gweithio a pham; deall a dadansoddi'r rhwystrau i ddatblygu prosiectau o safon; a nodi cyfleoedd ar gyfer meysydd o dwf yn y dyfodol.<br><br>Cadarnhaodd y gweithdy fod amrywiaeth eang o weithgarwch a diddordeb a brwdfrydedd cynyddol ynglŷn â bod yn rhan o brosiectau ymarferol yng Nghymru yn y dyfodol.<br><br>Mae modd bellach i fentrau cymdeithasol fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Caiff hyn ei atgyfnerthu ymhellach gan y Cynllun Gweithredu Strategol Mentrau Cymdeithasol y bwriedir ei lansio o'r newydd yn ddiweddarach yn 2008. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Erbyn diwedd 2004, yn cefnogi sefydlu Clwb Meincnodi Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru ac annog pob sector o'r diwydiant adeiladu i gymryd rhan yn y broses o fesur perfformiad yn erbyn dangosyddion safon datblygu cynaliadwy y diwydiant | Mae gwaith Clwb Meincnodi Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn parhau fel y Rhwydwaith Gwella Perfformiad sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Prosiectau Arddangos Arfer Gorau, a reolir gan aelod llawn amser o dîm Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru. |
| Lansio ail gam y Cynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd yn 2007, a ddatblygwyd gyda chymorth y panel o arbenigwyr rheoli adnoddau newydd | Ystyriwyd argymhellion y Panel Arbenigol ar Reoli Adnoddau wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer gwasanaeth effeithlonrwydd adnoddau cydgysylltiedig ac integredig i fusnesau. Bydd yn cynnwys camau i annog busnesau i fod yn fwy gwyrdd er mwyn cyflawni dau nod, sef bod yn fwy cystadleuol a chyfrannu at dargedau amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig o ran y newid yn yr hinsawdd. Y gwasanaeth hwn, y disgwylir iddo fod ar waith yn ystod 2008/9, fydd yr elfen gyntaf o Strategaeth Swyddi Gwyrdd.<br><br>Ystyriwyd cynigion gan Weinidogion ar gyfer Gwasanaeth Effeithlonrwydd Adnoddau a Lleihau Carbon i Fusnesau, ac maent yn cael eu diwygio ar hyn o bryd. Bydd hwn yn disodli'r Cynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd, a bydd hefyd yn elfen o'r Strategaeth ar Swyddi Gwyrdd. Cyfeiriwyd ato fel Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru ond mae'n annhebygol mai hwn fydd ei deitl. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae WEFO yn cynghori prosiectau sy'n gwneud cais am arian o'r Cronfeydd Strwythurol o dan Cymorth Hyblyg i Fusnes a blaenoriaethau eraill i gyfeirio busnesau at Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru, lle y bo'n briodol. |
| Comisiynu adolygiad o'n Strategaeth Wastraff yn 2007 a nodi targedau a chamau gweithredu pellach er mwyn sicrhau y caiff gwastraff ac adnoddau eu rheoli mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy yng Nghymru | Dechreuodd gwaith cychwynnol yn 2007 a bwriedir llunio dogfen ymgynghori ddrafft tua diwedd 2008/09.<br>Ar 18 Hydref 2007 cyflwynodd y Gweinidog y targedau newydd ynglŷn â gwastraff trefol a ffafriwyd ganddi i'w trafod. Roedd hyn yn cynnwys targed arfaethedig ar gyfer ailgylchu/compostio gwastraff o 70% erbyn 2024/25. |
| Erbyn mis Rhagfyr 2004, hybu ymgyrch lleihau gwastraff ac ailgylchu i gartrefi drwy ymgyrch fawr yn y cyfryngau wedi'i rhedeg gan fenter Craff am Wastraff sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth y Cynulliad | Yn 2007-08 gwelwyd cam 4 o'r hysbysebion i'r Ymgyrch Genedlaethol yn y Cyfryngau a gafodd eu cynhyrchu ar ddechrau 2007. Mae manylion ar gael yn: http://www.wasteawarenesswales.org.uk/adverts.html.<br><br>Canolbwyntiodd yr ymgyrch hon ar gyflwyno elfennau ehangach yr hierarchiaeth gwastraff, 'lleihau (bwyd), ailddefnyddio (dodrefn) ac ailgylchu (tuniau alwminiwm)' a'r cysylltiadau ag ynni a arbedwyd drwy gyflawni gweithgareddau penodol. Cysylltwyd yr ymgyrch ag effeithiau amgylcheddol ehangach, megis y newid yn yr hinsawdd. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Yn ystod yr un cyfnod roedd Cynllun Craff am Wastraff yn gweithio gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ar fersiwn Cymru o'r ymgyrch 'Love Food, Hate Waste'. Yn yr ymgyrch genedlaethol hon yng Nghymru a arweinir gan gysylltiadau cyhoeddus yn bennaf, nodwyd faint o fwyd sy'n cael ei wastraffu gan y teulu cyffredin yng Nghymru a'i nod oedd codi ymwybyddiaeth ac annog gweithredu ar frig yr hierarchiaeth gwastraff, 'lleihau' gwastraff.<br><br>Hefyd, yn yr un cyfnod, manteisiodd ar gyfleoedd eraill ym maes cysylltiadau cyhoeddus o ran materion megis cewynnau go iawn (lleihau) ac ailgylchu yn sgil digwyddiadau (ailgylchu).<br><br>Mae ymchwil i Gam 4 Cynllun Craff am Wastraff wedi dangos:<br>• mae 78% o ymatebwyr yn honni eu bod wedi gweld/clywed rhai hysbysebion yn hyrwyddo ailgylchu yn ystod y 6 mis diwethaf (o gymharu â 60% ar ôl cam 1)<br>• nododd 76% o ymatebwyr eu bod wedi gweld hysbysebion yn hyrwyddo ailgylchu ar y teledu (67% ar ôl cam 1)<br>• roedd bron un o bob pump (18.4%) o'r rhai a oedd wedi gweld unrhyw hysbysebion wedi gweld yr hysbyseb yn nodi: "The pleas of children/children talking creating awareness". |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae cryn welliant yn ymateb pobl sy'n honni eu bod yn ailgylchu mwy na hanner eu sbwriel yn rheolaidd - 30% ar gam 1, 33% ar gam 2, 41% ar gam 3, a 53% ar gam 4.<br><br>Yn 2007-08 cafwyd cyfradd ailgylchu/ailddefnyddio/compostio o 32%, sydd wedi cynyddu o 26% yn 2006-07 a 23% yn 2005-06. Dengys canlyniadau o 2006-07 hefyd fod cyfanswm cyfran y gwastraff a thunelli gwirioneddol a gaiff ei dirlenwi wedi lleihau, a hefyd gyfanswm y gwastraff trefol bioddiraddadwy (sy'n cynhyrchu methan) a gaiff ei dirlenwi. Gostyngodd cyfanswm sgil-gynhyrchion trefol (twf gwastraff) hefyd. |
| Erbyn mis Mawrth 2005 cynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i roi Llawlyfr Canllawiau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy y Sector Cyhoeddus drwy gynhyrchu pecyn adnoddau a darparu hyfforddiant | Mae Ymgyrch Lleihau Gwastraff y Sector Cyhoeddus wedi tyfu ac wedi datblygu. Mae bellach yn rhoi hyfforddiant a chanllawiau, adnoddau ar-lein ac arian ar gyfer cyfarpar ailddefnyddio ac ailgylchu.<br><br>Hefyd mae sgil-gynhyrchion gwastraff o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu mesur a dylai canlyniadau'r arolwg o sgil-gynhyrchion gwastraff fod ar gael ar ddechrau 2009. |
| Creu ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr fel rhan o ymgyrch ymwybyddiaeth gyffredinol, gan adeiladu ar astudiaeth gan y Cyngor Defnyddwyr a WWF Cymru | Roedd codi ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy yn rhan o gylch gwaith Grŵp Cyfathrebu Cynnal Cymru a hwylusodd nifer o ymgyrchoedd yn ogystal â meithrin cysylltiadau rhwng aelod-sefydliadau. Mae Cynnal Cymru am ddatblygu'r gwaith hwn yn rhwydwaith o ymarferwyr cyfathrebu lleol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae is-grŵp Cyfathrebu Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd hefyd wedi ymgymryd â rhan o gylch gwaith y grŵp. |
| Hybu gwybodaeth i berchenogion cartrefi ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy o fewn cwmpas y Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni | Defnyddir Porth Ynni Cymru i helpu i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i berchenogion cartrefi yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn ymgymryd ag ymgyrch gyfathrebu ar y camau y gall unigolion eu cymryd i wella effeithlonrwydd ynni ac mae Canolfan Cyngor Effeithlonrwydd Ynni'r Ymddiriedolaeth ar ei ffurf estynedig, a ariannwyd yn rhannol gan Lywodraeth y Cynulliad yng Nghymru, yn cyfeirio perchenogion cartrefi at grantiau megis y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref a'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel lle y bo'n briodol, yn ogystal â rhoi cyngor ar effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu.<br><br>Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi paratoi Canllaw ar y Newid yn yr Hinsawdd i Berchenogion Cartrefi sy'n cynnig awgrymiadau ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys y defnydd o ficrogynhyrchu, y gall perchenogion cartrefi eu dilyn wrth ymgymryd â gwaith adnewyddu.<br><br>Bydd yr ymgyrch wybodaeth gynhwysfawr ar y newid yn yr hinsawdd y bwriedir ei chynnal yn hydref 2008 yn cynnwys cyngor ar effeithlonrwydd ac arbedion ynni. Bwriedir ystyried ffynonellau a sianeli o wybodaeth a chyngor hefyd fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Erbyn diwedd Rhagfyr 2004 nodi ein hymagwedd ar gyfer y dyfodol o ran cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cysylltu gweledigaeth y Cynulliad gyda chamau ar lawr gwlad | Cyhoeddwyd yr adolygiad, Ar Draws Ffiniau, o dan arweiniad Syr Jeremy Beecham, ym mis Gorffennaf 2006.<br><br>Yn Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau (Tachwedd 2006) nodwyd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adolygiad drwy raglen weithredu gynhwysfawr, a gynhwysai ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol.<br><br>Ym mhrosbectws Byrddau Gwasanaethau Lleol Ionawr 2007 gwahoddwyd partneriaethau strategol lleol i gyflwyno cynigion yn ymwneud â chydweithio'n agosach â Llywodraeth y Cynulliad. Yr amcan oedd datblygu dull dysgu o weithredu o ymdrin â phrosiectau datblygu a rhannu modelau BGLlau drwy gydgynhyrchu.<br><br>Nodwyd chwe ardal i fod yn rhan o'r cam treialu, sef Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili, Wrecsam, Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd.<br><br>Rôl y cynlluniau peilot oedd helpu i ganfod sut y gellid addasu'r strwythurau cyfredol i sicrhau newid o ran diwylliant a chyflymder. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â nifer o faterion ymarferol megis:<br><br>- sut i gychwyn a chymryd camau diriaethol drwy gydweithredu;<br>- sut i weithio fel tîm i ddatrys problemau, gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth a chymaint o dryloywder â phosibl; |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | - sut i wneud gweithio mewn partneriaeth yn yr ardal leol yn fwy effeithiol.<br><br>Mae adolygiad sylfaenol annibynnol cychwynnol o'r cynlluniau peilot yn ystod 2007-08 wedi rhoi tystiolaeth galonogol bod mwy o ffocws ar gydweithredu o ganlyniad i weithredu drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol.<br><br>Mae dau o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol peilot, Sir Gaerfyrddin a Gwynedd wedi cynnwys prosiectau ar y newid yn yr hinsawdd/datblygu cynaliadwy yn eu cytundeb cyflawni lleol ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Mae rhwydwaith arloesi i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ar ddatblygu cynaliadwy wedi cael ei ddatblygu ac mae wedi cyfarfod ddwywaith. Mae hwn yn dwyn ynghyd yr holl BGLlau sy'n datblygu neu'n gweithio ar brosiectau yn y maes ac arweinwyr polisi cenedlaethol. Y nod yw rhannau a lledaenu dysgu. |
| Sicrhau y caiff datblygu cynaliadwy ei ymgorffori mewn rhaglenni hyfforddiant craidd ac, o fis Rhagfyr 2004, cynnwys cwestiynau ynglŷn â hynny mewn arolygon blynyddol o Agwedd Staff y Cynulliad | Mae datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori drwy'r rhaglen dderbyn i aelodau newydd o staff.<br><br>Mae'r camau cychwynnol yn canolbwyntio ar Ymwybyddiaeth Amgylcheddol gan edrych ar gamau yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n creu mwy o falchder yn y gymuned, sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth ac sy'n lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a'r galw am ynni, dŵr a thrafnidiaeth. Defnyddir taith o amgylch y Senedd i atgyfnerthu'r wybodaeth hon. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae aelodau o staff yn cael manylion am gyfleoedd i wirfoddoli a darpariaeth iechyd galwedigaethol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl ystyried materion cyfiawnder cymdeithasol a'u hannog i fyw bywydau iach ac annibynnol.<br><br>Mae staff yn cael manylion Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y sesiynau hyn i'w helpu i ystyried hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac adeiladu gwlad ddwyieithog.<br><br>Mae Tîm Trawsbynciol WEFO wedi rhoi hyfforddiant i swyddogion datblygu prosiect yn rhaglenni ESF ac ERDF i sicrhau bod cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol wedi'u hymgorffori'n briodol mewn prosiectau o'r cychwyn. |
| O fis Ionawr 2005, mesur ein hunain yn erbyn y meincnod safon sefydliadol sy'n cael ei ddatblygu gan y Fforwm ar gyfer y Dyfodol sy'n atgyfnerthu datblygu cynaliadwy fel prif ysgogwr ein rhaglen newid, Cynllun Rheoli a dulliau cynllunio polisi mewnol | Cychwynnwyd ar brosiect gyda Fforwm ar gyfer y Dyfodol i ddatblygu meini prawf arweinyddiaeth a fydd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Nod y prosiect fydd:<br>• Nodi'r meini prawf ar gyfer sefydliad arweiniol yn y sector cyhoeddus ar ddatblygu cynaliadwy;<br>• Cadarnhau sefyllfa gymharol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel sefydliad arweiniol yn y sector cyhoeddus;<br>• Nodi camau ymarferol y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd i ddod yn sefydliad arweiniol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Bydd canlyniad yr astudiaeth ar gael i sefydliadau eraill a fydd yn gallu cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd eu hunain. |
| O fis Ebrill 2005, fel rhan o'r adolygiad o System Rheoli Perfformiad y Cynulliad, ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn systemau arfarnu staff drwy'r cymwyseddau craidd ac amcanion | Cynhaliwyd adolygiad o'n system rheoli perfformiad yn 2006-07. Gweithredwyd arno ar gyfer blwyddyn perfformiad 2007-08. Roedd y fframwaith Sgiliau ac Ymddygiadau newydd yn seiliedig ar weledigaeth a gwerthoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynnwys "datblygu cynaliadwyedd: economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol." Mae'r fframwaith yn dweud wrthym sut y mae (sgiliau ac ymddygiadau) Llywodraeth Cynulliad Cymru am i ni ddefnyddio a datblygu tra'n cyflawni ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. |
| O fis Ebrill 2005, cymhwyso'r offeryn integreiddio polisi i bob polisi strategol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno ein gweledigaeth strategol, yn cyhoeddi'r canlyniadau fel rhan o ymgynghoriadau ac yn adolygu'r offeryn yn gyson. Hefyd, byddwn yn datblygu methodoleg i brofi'r agweddau hynny ar ddatblygu cynaliadwy yn ein strategaethau lefel uchaf | Mae'r offeryn Porth i Bolisïau wedi bod ar waith i brofi'r holl strategaethau a pholisïau allweddol ar gyfer y meini prawf hyn ers 2004. Cafodd yr offeryn hwn ei gynllunio mewn partneriaeth â Fforwm ar gyfer y Dyfodol, gan ddeillio o faterion datblygu cynaliadwy. Yn ystod gwanwyn 2008 cafodd yr offeryn ei adolygu a'i adnewyddu yng ngoleuni Cymru'n Un, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a phrofiad defnyddwyr. Gofynnir i Gyfarwyddwyr Adrannau Polisi sicrhau bod polisïau strategol allweddol yn parhau i gael eu profi gan y Porth i Bolisïau. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae'r offeryn hwn ar ei newydd wedd yn cael ei dreialu tan fis Hydref 2008, pan fydd y Cyfarwyddwyr Polisi yn penderfynu ar ei gynllun. |
| Cyhoeddi asesiad cryno o'n dyraniadau adnoddau yn y gorffennol yn erbyn nodau strategol yr ymgymerwyd â hwy gan Adolygiad 2004 o Wariant | Cyhoeddwyd gwybodaeth am ganlyniad Adolygiad 2004 o Wariant yn y ddogfen 'Cynlluniau Gwariant Llywodraeth y Cynulliad' ym mis Chwefror 2005, a ddangosodd sut yr oedd y dyraniadau cyllidebol a wnaed yn dilyn yr Adolygiad o Wariant yn cefnogi ymrwymiadau allweddol Llywodraeth y Cynulliad. |
| Gan weithredu ar unwaith, adeiladu ar waith Cronfa'r Brenin i bennu camau allweddol ar gyfer y GIG yng Nghymru er mwyn datblygu'r agenda hon; a chefnogi'r gwaith o gynhyrchu Strategaeth Gwastraff Gofal Iechyd i Gymru | Mae Pecyn Cymorth ar gyfer Datblygu Cynaliadwy wedi cael ei baratoi a'i ddosbarthu i gyrff y GIG yn seiliedig ar waith Cronfa'r Brenin. Drwy ddefnyddio hwn, erbyn diwedd mis Mawrth 2008, y bwriad oedd bod pob un o gyrff GIG Cymru yn paratoi Datganiad Polisi a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy; mae rhai eto i'w paratoi. Cânt eu dadansoddi a'u defnyddio fel sail ar gyfer cynnydd pellach.<br><br>Mae gwaith ar Ddatblygu Cynaliadwy i'r Adrannau Iechyd a'r GIG yn cael ei orchwylio gan Grŵp Llywio; daw aelodau'r Grŵp hwn o gyrff iechyd, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, cyrff cynghori ac Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cytunwyd ar gyfres o flaenoriaethau allweddol ar gyfer 2008/09 gan gynnwys gweithio cynyddol ar draws sectorau tuag at fuddiannau a rennir - h.y. adfywio ac iechyd. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Cyhoeddwyd y Strategaeth Gwastraff Gofal Iechyd i Gymru gan GIG Cymru ym mis Mehefin 2006. Gweler: *http://newydd.cymru.gov.uk/topics/health/publications/whcs/2006/whc2006043?lang=cy* |
| Erbyn diwedd 2005, yn datblygu canllawiau ymarferol a hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer sefydliadau unigol ar y cyd gan gynnwys y defnydd o offer integreiddio a modelau rhagoriaeth trefniadol | Mae'r offeryn Integreiddio Polisi ar gael i sefydliadau sydd am ei ddefnyddio. Fel rhan o'r rhaglen dysgu gweithredol ddiweddar i uwch arweinwyr yn y sector cyhoeddus, Walking not talking, cafwyd sesiynau lle y gellid cymhwyso'r offeryn at wahanol senarios. |
| Diweddaru'r canllawiau ar y defnydd o bŵer lles gan awdurdodau lleol yng Nghymru, gan ymgynghori ar y canllawiau diwygiedig erbyn diwedd 2004 | Bu oedi o ran y cam gweithredu hwn oherwydd Adolygiad Beecham, Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd ac etholiadau 2007 i'r Cynulliad. Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddwyd canllawiau statudol ar ddatblygu a chyflawni Strategaethau Cymunedol i helpu i'w datblygu a'u cyflawni ymhellach gyda'r nod o ddwyn ynghyd bawb a all gyfrannu at ddyfodol cymunedau o fewn ardal awdurdod lleol. Bydd y canllawiau ar les yn dilyn yn ddiweddarach eleni. |
| Datblygu Safon Awdurdod Lleol ar y cyd â CLlLC, a fydd yn darparu canllaw ymarferol ar gyfer meysydd gwasanaeth unigol ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud i gyflawni datblygu cynaliadwy | Mae CLlLC wedi adeiladu ar y canllawiau ar-lein sydd eisoes ar gael i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys rhagor o fodiwlau gwasanaethau a chanllawiau ar adnoddau sy'n canolbwyntio ar amryw faterion. Ceir rhagor o fanylion am y gwaith hwn yn adran 2 o'r adroddiad hwn. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Sicrhau bod yr Adolygiad Mesur Perfformiad yn ymgorffori datblygu cynaliadwy yn y fframwaith perfformiad newydd a gyflwynir ym mis Ebrill 2005 a bod gwaith Archwilio yng Nghymru yn ategu'r nod hwn | Cyflwynwyd y Fframwaith Mesur Perfformiad yn 2005 yn ôl yr arfaeth.<br><br>Mae archwilwyr yn annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad ac maent yn cynnal eu gwaith yn unol â'u cylchoedd gorchwyl statudol a'u harfer proffesiynol sefydledig. Mae SAC yn cefnogi'r Fframwaith Mesur Perfformiad a bu'n rhan o'r broses o'i ddatblygu. |
| Erbyn mis Mai 2005, cwblhau gwerthusiad manwl o effeithiolrwydd y cam cyntaf o strategaethau cymunedol a'r graddau y maent hwy a'u Cynlluniau Gweithredu wedi prif ffrydio datblygu cynaliadwy | Cwblhawyd y gwerthusiad o'i strategaethau gan dîm o academyddion yn 2006. Cafodd ei ganfyddiadau ei adlewyrchu yn y canllawiau newydd ar gynllunio cymunedol yn 2008. Bydd nodyn cyngor anstatudol ar brif ffrydio datblygu cynaliadwy mewn cynllunio cymunedol yn dilyn yn ddiweddarach yn 2008.<br><br>Nod y Nodyn Cyngor yw rhoi arweiniad strategol ac ymarferol i bartneriaid cynllunio cymunedol ar y materion datblygu cynaliadwy y gallent eu hystyried wrth iddynt ddatblygu a gweithredu strategaethau cymunedol. Ei nod yw rhoi cyngor manylach ynglŷn â datblygu cynaliadwy na'r hyn a geid yn y canllaw "Paratoi Strategaethau Cymunedol - Gweledigaeth Leol" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Mawrth 2008. |

<table>
<tr><th>Pwynt Gweithredu</th><th>Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008</th></tr>
<tr><td>Sicrhau bod cynigion y Cynulliad ar gyfer rhesymoli'r cynlluniau a'r strategaethau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu cynhyrchu, yn ysgogi canlyniadau cynaliadwy</td><td>Cafodd rhaglen rhesymoli cynlluniau ei chwblhau'n derfynol yn 2006. Bydd hon yn arwain at leihau nifer y cynlluniau y bydd angen i awdurdodau lleol eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef 32 ar adeg yr adolygiad, i bedwar:<br>• y Strategaeth Gymunedol;<br>• y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;<br>• y Cynllun Plant a Phobl Ifanc;<br>• y Cynllun Datblygu Lleol<br><br>Mae gofynion cynlluniau yn cael eu dileu wrth i'r cylchoedd cynllunio cyfredol ddod i ben. Mae hyn yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau cynllunio gynllunio eu blaenoriaethau strategol a gweithredu eu hunain, gan gynnwys blaenoriaethau cynaliadwyedd.</td></tr>
<tr><td>Cefnogi pum partneriaeth 'Esiampl' awdurdodau lleol a'r sector ailgylchu sy'n anelu at gynnwys cymunedau lleol yn y broses o gyrraedd lefel ailgylchu o 50% erbyn 2007, a chynnal gwerth yr adnoddau eilaidd sy'n deillio o wastraff drwy greu mentrau cymdeithasol lleol newydd</td><td>Gwnaeth pob un o'r pum partneriaeth 'Esiampl' gais llwyddiannus am amryw ffynonellau o arian, er enghraifft o gronfa Cleanstream y Gronfa Cyfleoedd Newydd ac o'r Cynllun Ailgylchu Strategol (a gefnogir drwy'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac arian Llywodraeth Cynulliad Cymru).</td></tr>
<tr><td>Yn cydweithio'n agos ar unwaith gyda phartneriaid busnes a chymdeithasol i ddatblygu'r cynigion ar 'Gynhyrchu a Defnydd Cynaliadwy'</td><td>Bwriedir i hyn ddod yn rhan o'r cynigion i gefnogi busnesau drwy'r rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes.</td></tr>
</table>

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Erbyn mis Hydref 2005 ac ar y cyd â'n cynigion ar gyfer yr offeryn integreiddio polisi, cynnwys partneriaid yn fwy uniongyrchol yn y broses o brofi a datblygu polisïau | Mae partneriaid mewnol yn cymryd rhan fel mater o drefn yn y broses o gymhwyso'r offeryn Porth i Bolisïau i brofi ei briodoldeb. Anogir adrannau i gynnwys partneriaid allanol hefyd, lle y bo'n briodol.<br><br>Fel rhan o adolygiad 2008 o'r Porth ychwanegwyd elfen cam cynnar, sy'n annog ymgysylltu â sawl tîm mewnol ac allanol i sicrhau bod materion yn cael eu hystyried yn drylwyr cyn i bolisïau ddechrau cael eu datblygu. |
| Yn hyrwyddo arfer gorau a dysgu ar draws y partneriaid, gan gysylltu hynny â chynigion ar gyfer canolfan rithwir ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n cael ei datblygu gan Cynnal Cymru | Mae Cynnal Cymru, sef Fforwm Datblygu Cynaliadwy Cymru, wedi datblygu SustainWales.com, fel 'siop un stop' am fyw'n gynaliadwy yng Nghymru. Nod y wefan yw hyrwyddo arfer gorau a galluogi pobl ledled Cymru i gael y modd i fyw'n gynaliadwy. |
| Hyrwyddo'r arferion a'r egwyddorion gorau i'r adolygiad o Gronfeydd Strwythurol a Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE, drwy gynnyrch y Rhwydwaith Rhanbarthau Ewropeaidd Cynaliadwy yn ystod hydref 2004, a thrwy NRG4SD, i gyfarfodydd ComisiwnDatblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig | Drwy nrg4SD, gwnaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai hyrwyddo arfer gorau ar y newid yn yr hinsawdd ac ynni cynaliadwy yng Nghymru mewn digwyddiad gan Gyngor Llywodraethu Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (ar 21 Chwefror 2008).<br><br>Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn ymgorffori cyfle cyfartal a meini prawf cynaliadwyedd amgylcheddol fel themâu trawsbynciol, i'w cyflawni'n fertigol ac yn llorweddol drwy'r rhaglenni. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Galw ar lywodraethau rhanbarthol i fabwysiadu agweddau polisi a chamau gweithredu ar y cyd cadarn drwy gynhadledd nesaf NRG4SD yn LakeToba, Indonesia, fis Chwefror 2005 | Cwblhawyd. Parhawn i weithio gyda nrg4SD, ac rydym yn rhan o drafodaethau am brosiect posibl rhwng yr UNDP a nrg4SD ar y newid yn yr hinsawdd, sydd i'w gyhoeddi yn uwchgynhadledd tair blynedd nrg4SD yn St Malo (Llydaw, Ffrainc) ym mis Hydref 2008. |
| Sicrhau bod ein gwaith, ein nodau a'n hymrwymiadau rhyngwladol ar ddatblygu cynaliadwy yn cael eu coladu a'u cyhoeddi erbyn mis Chwefror 2005 a'u bod yn cael eu cynnwys ym mholisïau'r Cynulliad | Cwblhawyd ond caiff deunydd ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i ddosbarthu'n eang.<br><br>Rydym yn rhoi arian i Rwydwaith Sector Rhyngwladol Cymru sydd wedi datblygu gwefan i roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau datblygu rhyngwladol sy'n cael eu cynnal ledled Cymru.<br><br>Mae'r tîm Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol a Chymru o blaid Affrica (Adran y Prif Weinidog) yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddyfarnu grantiau i ddolenni/ partneriaethau rhwng ysbytai yng Nghymru ac Affrica. |
| Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion dros y 2 flynedd nesaf i weithredu ymrwymiad y Cynulliad i ddod yn wlad Masnach Deg | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi parhau i gefnogi'r ymgyrch Cenedl Masnach Deg, a gynhelir gan Fforwm Masnach Deg Cymru, sy'n cyrraedd ei hanterth. Rhagwelir y bydd Cymru yn cyhoeddi bod y meini prawf wedi'u bodloni ym mis Mehefin 2008. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Cefnogi datblygiad Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU a sefyllfa gadarnhaol gan y DU mewn trafodaethau Rhyngwladol; ac ystyried cyfleoedd i gydweithio â rhanbarthau eraill ledled y byd | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r DU, gan gynnwys datblygu dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a chyflwyno adroddiadau arnynt yng nghyd-destun dangosyddion Fframwaith Datblygu Cynaliadwy'r DU. Bwriedir cyhoeddi'r dangosyddion ym mis Gorffennaf 2008.<br><br>Mae ein cysylltiadau â nrg4SD a Rhwydwaith Rhanbarthau Cynaliadwy Ewrop yn parhau ac rydym yn parhau i edrych am gyfleoedd lle y gallem weithio gyda rhanbarthau eraill drwy'r rhwydweithiau hyn.<br><br>Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 wedi'u llunio i ganiatáu arian ar gyfer gweithgareddau trawsgenedlaethol lle y byddant yn helpu i wireddu targedau a chanlyniadau'r rhaglenni hynny a dod â manteision i Gymru yn eu sgil. |
| Gweithio gyda sefydliadau anllywodraethol yn y sector datblygu i nodi cyfraniad cadarnhaol Cymru at Nodau Datblygu'r Mileniwm gan ganolbwyntio o bosibl ar addysg, rhywedd ac iaith | Ar ddiwedd 2007, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad Gynllun Grant Cymru o blaid Affrica gyda'r nod o ariannu sefydliadau yng Nghymru sy'n gwneud cyfraniad i ddatblygu rhyngwladol neu gymorth mewn argyfwng. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Roedd y Cynllun Grant yn agored i unrhyw bartïon â diddordeb ac mae 58 o geisiadau wedi dod i law. Caiff penderfyniadau ar ariannu ceisiadau llwyddiannus eu gwneud yn fuan. Nod y Cynllun Grant yw:<br>• annog parodrwydd ar gyfer argyfwng rhyngwladol yng Nghymru a galluogi a chefnogi gwirfoddoli priodol ar adeg argyfwng;<br>• cynorthwyo cymunedau alltud yng Nghymru yn eu hymdrechion i ymateb i argyfyngau rhyngwladol yn eu mamwlad;<br>• meithrin gallu sefydliadau anllywodraethol datblygu rhyngwladol yng Nghymru a helpu i gydlynu'r sector cyfan er mwyn atgyfnerthu effaith Cymru ar gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm;<br>• datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng cymunedau yng Nghymru ac Affrica Islaw'r Sahara.<br><br>Nodir cydraddoldeb rhywiol yn benodol fel maes gweithgaredd allweddol yn rhaglen Gydgyfeirio Cronfa ESF ac mae wedi'i brif ffrydio fel rhan o thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal sy'n rhychwantu rhaglenni eraill y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Mae datblygu cynaliadwy hefyd yn un o Nodau Datblygu'r Mileniwm ac mae thema drawsbynciol Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Cronfeydd Strwythurol hefyd yn helpu i gefnogi hyn. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Cynnal canllawiau Llywodraeth y DU sydd wedi'u hanelu at ddiogelu gwledydd sy'n datblygu rhag colli staff y sector iechyd tra'n cynnal cyfleoedd cyfnewid sy'n fuddiol i bawb | Nid yw GIG Cymru yn mynd ati i recriwtio staff sector iechyd o wledydd sy'n datblygu. Mae gan ysgolion meddygol a deintyddol Prifysgol Caerdydd drefniadau ar waith i gefnogi addysg a hyfforddiant mewn gwledydd penodol drwy ysgoloriaethau, teithiau cyfnewid ac ati.<br><br>Mae'r rhaglen Cymru o blaid Affrica yn cefnogi rhai prosiectau sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau a gwasanaethau mewn gwledydd sy'n datblygu yn Affrica. |
| Erbyn gwanwyn 2005, yn ariannu gwaith datblygu canolog Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol Cynnal Cymru ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru, sydd wedi'i gysylltu â'n Menter Rheoli yn y Sector Cyhoeddus | Mae prif raglen dysgu gweithredol Arweinyddiaeth Un Blaned, Walking not Talking, a hwyluswyd gan Jonathon Porritt CBE wedi cael ei chyflwyno i garfan o 26 o uwch arweinwyr Cymru. Mae'r rhaglen, a olygai gyfarfod am chwe sesiwn ymchwilio dros y flwyddyn, wedi galluogi'r rhai a gymerodd ran i ddangos perchenogaeth gref a gweithredol o'r agenda cynaliadwyedd.<br><br>Gan ymateb i'r galw mawr am y rhaglen, roedd RhNgCC yn gallu cynnig rhaglen bellach sy'n parhau tan ddiwedd 2008. |
| Ymgymryd â gwaith ymchwil i lywio'r dull(iau) mwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu strategaeth ac ymgyrch gyfathrebu erbyn diwedd 2005 | Roedd yr ymarfer ymchwil a gynhaliwyd ym mis Mawrth-Ebrill 2005 yn amhrisiadwy i ddatblygiad grŵp Cyfathrebu Cynnal Cymru. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Gweithio gyda Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy i ddatblygu rhaglen weithredu i sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu clywed wrth ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru | Mae arian craidd gan Lywodraeth y Cynulliad wedi galluogi Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy i sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy Rymuso, Addysg a Gweithredu. Nod Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy yw ennyn diddordeb pobl ifanc mewn materion cynaliadwy, a'u galluogi i ddylanwadu ar newid drwy gyfarfodydd ar wahanol lefelau, a chanolbwyntio ar faterion penodol. Mae llawer o waith Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar y newid yn yr hinsawdd fel thema - mae'r camau a gymerwyd wedi cynnwys pobl ifanc yn mynd ati i leihau eu hôl troed carbon a threfnu digwyddiadau codi ymwybyddiaeth ar raddfa fawr. |
| Cynnwys cyfeiriad penodol at ymrwymiad y Cynulliad i hybu datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yng nghyd-destun polisi adolygiad cyfredol Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) o'r cwricwlwm a threfniadau asesu. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i gyngor ACCAC ar ddiwedd hydref 2004; | Cafodd y Fframwaith Dysgu i Blant 3-7 oed yng Nghymru, gorchmynion Pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig, a fframweithiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Gyrfaoedd a Byd Gwaith ac Addysg Grefyddol, sydd oll yn hyrwyddo ADCDF, eu dosbarthu i ysgolion ym mis Ionawr 2008. Caiff y cwricwlwm diwygiedig ei weithredu gan ysgolion o fis Medi 2008.<br><br>Mae gwefan sy'n cynnwys canllawiau ar ABCh wedi cael ei datblygu sy'n rhoi cymorth eang i ysgolion wrth weithredu thema datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Sicrhau bod ELWa yn cyfeirio Sefydliadau Addysg Bellach i gynnwys adran ar ddatblygu cynaliadwy yn eu cynlluniau strategol ar gyfer 2005 (Rhagfyr 2004). Cyflwynir y cynlluniau ym mis Mehefin 2005 | Mae'r gofyniad ar SABau i gynnwys y diweddaraf ar ddatblygu cynaliadwy yn eu dogfennau cynllunio wedi dod yn rhan annatod o broses gynllunio SABau. Cyflwynodd pob SAB ddiweddariad ar ddatblygu cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2006 a mis Gorffennaf 2007. Disgwylir diweddariad pellach ym mis Gorffennaf 2008.<br><br>Caiff Cynlluniau Strategol eu dadansoddi a chaiff arfer da ei fwydo i'r sector yng Nghynhadledd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn Stadiwm Mileniwm Cymru ym mis Ebrill 2008 a thrwy rwydweithiau ac mewn cyhoeddiadau. |
| Archwilio ffyrdd o ddarparu mesur hyfforddiant ar gyfer athrawon ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang drwy ddatblygiadau mewn Datblygiad Proffesiynol Cynnar a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. (Adroddiad i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2005 ar gyfer y rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn 2005-06) | Gall athrawon wneud cais i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru am arian i gefnogi angen am hyfforddiant datblygiad proffesiynol drwy'r broses rheoli perfformiad. Mae Cynllun DPP y Cyngor wedi cael ei adolygu i sicrhau nad oes dim byd yn atal athrawon rhag defnyddio DPP ar gyfer gweithgareddau datblygu cynaliadwy. Mae'r rhaglen yn un dreigl am dair blynedd (rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2008). Bydd y rhaglen tair blynedd nesaf yn rhedeg o 1 Ebrill 2008. |
| Nodi, yn ein hymgynghoriad ar gylchlythyr drafft diwygiedig ar hyfforddiant cychwynnol athrawon, lle byddwn yn cynnig rhoi mwy o sylw i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn y safonau Statws Athro Cymwysedig. Cyhoeddir ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol sy'n cynnwys y cynnig hwn erbyn mis Ebrill 2005 | Yn dilyn datblygiad ADCDF o fewn safonau Statws Athro Cymwysedig, mae deunyddiau cynorthwyol i athrawon dan hyfforddiant cychwynnol wedi cael eu comisiynu a byddant ar gael o fis Medi 2008. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Sicrhau bod datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ymddangos ym mhob agwedd ar fywyd ysgolion. Byddai hyn yn cynnwys<br><br>Ymgynghoriad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gyflawni eu swyddogaethau gan roi ystyriaeth i faterion cynaliadwyedd, gyda'r bwriad o lunio rheoliadau ar ddechrau 2005 | Comisiynwyd deunyddiau cynorthwyol i ysgolion yn dangos sut y gellir datblygu ac ymgorffori ADCDF a byddant ar gael i ysgolion ym mis Medi 2008.<br><br>Ar hyn o bryd mae dros 1,800 o ysgolion yng Nghymru wedi'u cofrestru â'r rhaglen Eco-ysgolion, sy'n annog disgyblion i ymddiddori mewn materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Mae'n cynnig system strwythuredig ar gyfer rheoli amgylcheddol ysgolion. Mae disgyblion yn ymgymryd â rolau allweddol wrth wneud penderfyniadau a chyfranogi er mwyn lleihau effaith amgylcheddol yr ysgol.<br><br>Mae'r rhaglen yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn datblygu agweddau dinasyddiaeth gyfrifol gartref ac yn y gymuned ehangach. Mae'r Faner Werdd Ryngwladol, a ddyfernir i ysgolion sy'n dod yn Eco-ysgolion, yn eco-label a gydnabyddir ac a berchir am berfformiad ym maes addysg amgylcheddol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
| --- | --- |
| Cynnwys gofynion cynaliadwyedd mewn grantiau ar gyfer adeiladau ysgolion o 2005-06<br><br>Hybu effeithlonrwydd ynni mewn ysgolion | O 2005-06 roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried egwyddorion cynaliadwyedd (cyflwynwyd safonau BREEAM yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn 2005) ym mhob prosiect adeilad newydd a gwaith adnewyddu mawr. O 2007-08 rydym wedi cyflwyno'r gofyniad y dylid cyrraedd safon 'rhagorol' BREEAM neu safon gyfatebol fel un o'r amodau ar gyfer cael grant am bob adeilad ysgol newydd sbon ac estyniadau annibynnol a gefnogir gan y Grant Gwella Adeiladau Ysgolion, er mwyn ymgyrraedd at y nod o fod yn ddi-garbon ac at ddibenion cynaliadwyedd ehangach. Rydym wedi hyrwyddo dull fframwaith asesu amgylcheddol BREEAM ymhlith Awdurdodau Addysg Lleol.<br><br>Wrth lunio cynigion ar gyfer defnyddio eu Grant Gwella Adeiladau Ysgolion, mae'n ofynnol i awdurdodau hyrwyddo cynaliadwyedd a diogelwch yng nghynllun ysgolion newydd a gwaith adnewyddu mawr drwy ystyried safonau BREEAM. Cyfeirir awdurdodau at y canllawiau awdurdodol ar ffyrdd o fesur a lleihau effeithiau andwyol adeiladau ar yr amgylchedd byd-eang a lleol.<br><br>Mae dulliau yn cael eu datblygu ar gyfer cydweithredu rhwng awdurdodau ar gaffael cynaliadwy a rheoli prosiectau, wedi'i gefnogi gan Gwerth Cymru. Mae'r astudiaeth beilot gyda 5 o AALlau yn edrych ar gydweithredu rhwng awdurdodau a chaffael yn mynd rhagddi. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Ymestyn Cynlluniau Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru i 75% o ysgolion erbyn 2007 | Roedd 84% o ysgolion yn rhan o Rwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach erbyn mis Mawrth 2008. Arweiniodd hyn at fwy o arbenigedd o ran sut i ymdrin â materion iechyd mewn ysgolion, ac mae wedi newid disgwyliadau ac arferion. Mae disgyblion yn rhan o'r broses o nodi camau gweithredu mewn ysgolion, a helpu i'w cymryd, e.e. cyflwyno siopau ffrwythau yn yr ysgol, sefydlu gerddi ysgol a mannau cyfeillgarwch yn iard chwarae'r ysgol. |
| Hybu cysylltiadau rhwng ysgolion mewn gwledydd datblygedig a gwledydd sy'n datblygu | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cryn gymorth i ddatblygu cysylltiadau ysgol rhwng Cymru a gwledydd yn hemisffer y De. Drwy Bartneriaethau Ysgol Byd-eang yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol mae'r Cynulliad wedi helpu Dolen Cymru drwy roi arian grant ar gyfer ymweliadau rhwng ysgolion yng Nghymru a Lesotho sydd am ymgorffori dimensiwn byd-eang drwy eu hysgolion drwy ymgymryd â phrosiectau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm ar y cyd. Mae'r Cynulliad hefyd wedi cymryd camau i helpu'r Cyswllt Gefeillio rhwng Cymru a Somaliland, sy'n gobeithio dilyn model o gysylltu ysgolion sy'n debyg i'r model a fu'n llwyddiannus i Dolen Cymru. Mae'r mentrau hyn wedi'u hyrwyddo gan fenter Cymru o Blaid Affrica a menter Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Gweithio gyda HEFCW ac ELWa i annog sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch i brif ffrydio datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang fel rhan o'u cynllunio strategol. Comisiynu gwaith gan HEFCW yn llythyr cylch gwaith 2005-06 (Ionawr 2005); galw ar sefydliadau Addysg Uwch i gynnwys adran ar ddatblygu cynaliadwy yn eu cynlluniau strategol ar gyfer 2005 (Mai 2005); sefydliadau Addysg Uwch i gyflwyno cynlluniau strategol (Gorffennaf 2005) | Mae'r gofyniad ar SABau i gynnwys ydiweddaraf ar ddatblygu cynaliadwy yn eu dogfennau cynllunio wedi dod yn han annatod o broses gynllunio SABau. Cyflwynodd pob SAB ddiweddariad ar ddatblygu cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2006 a mis Gorffennaf 2007. Disgwylir diweddariad pellach ym mis Gorffennaf 2008. |
| Cyflwyno ymrwymiad ar gyfer ELWa i sicrhau bod darparwyr yn cynnwys datblygu cynaliadwy fel rhan o'u gwaith (i'w gynnwys yn llythyr cylch gwaith 2005-06) | Mae'r gofyniad ar SABau i gynnwys y diweddaraf ar ddatblygu cynaliadwy yn eu dogfennau cynllunio wedi dod yn rhan annatod o broses gynllunio SABau. Cyflwynodd pob SAB ddiweddariad ar ddatblygu cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2006 a mis Gorffennaf 2007. Disgwylir diweddariad pellach ym mis Gorffennaf 2008. |
| Drwy Fenter Gaffael Cymru, yn sefydlu Tasglu Gweinidogol i ddarparu llwybr strategol a chydlynus i gyfateb i anghenion datblygu economi a busnesau bach a chanolig cynaliadwy yng Nghymru, gydag anghenion masnachol y sector cyhoeddus. Bydd angen cytuno ar ddyddiad y cyfarfod cyntaf a'r cylch gorchwyl erbyn hydref 2004 | Mae'r Gweinidog dros Gyllid a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo ymestyniad arall i waith y Tasglu Caffael Busnes. Ceir manylion y rhaglen hon yn yr adran ar 'Mentrau Allweddol' yn yr adroddiad hwn. |
| Drwy ein Huned Gaffael fewnol adolygu manylebau contract safonol y Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod yn seiliedig ar arfer gorau | Mae Gwasanaethau Caffael Corfforaethol, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Gwerth Cymru - Caffael, yn treialu templed cynaliadwyedd sy'n codi o'r cwrs Cynaliadwyedd mewn Caffael a lansiwyd yn ddiweddar. Bydd hwn yn adeiladu ar yr arfer da a sefydlwyd gan god gwirfoddol Gwasanaethau Caffael Corfforaethol. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Mae Gwasanaethau Caffael Corfforaethol, sy'n rhan o Gwerth Cymru - Caffael, yn cwblhau'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy ar gyfer gofynion pob contract newydd gwerth mwy na £25,000, gan sicrhau yr ystyrir cynaliadwyedd yn llawn yn ystod cam cyntaf yr ymarfer caffael. |
| Drwy Fenter Gaffael Cymru, cefnogi a galluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gymhwyso arfer gorau yn ei ddulliau caffael drwy ei brosiect braenaru Caffael Cynaliadwy, a gaiff ei lansio ym mis Rhagfyr 2004 | Mae Gwerth Cymru yn parhau i hyrwyddo arferion caffael cynaliadwy drwy'r Sector Cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Gan adeiladu ar ganllawiau blaenorol a gyhoeddwyd, mae Rhaglen Hyfforddi o'r enw 'Gwneud iddo Ddigwydd' wedi cael ei datblygu, sy'n cynnwys cymorth ymarferol i ymgorffori cynaliadwyedd yn y broses gaffael.<br><br>Mae dros 200 o bobl wedi cael hyfforddiant erbyn hyn a bwriedir cynnal rhagor o gyrsiau ar ddiwedd 2008.<br><br>Mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 hefyd yn annog prosiectau i ddilyn egwyddorion caffael cynaliadwy. |
| Cefnogi Menter Gaffael Cymru i barhau â'i chyfres o wiriadau 'Addasrwydd Caffael', sydd eisoes ar waith gyda Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Mae'r model yn cynnwys adran sy'n asesu cynaliadwyedd. Caiff sefydliadau eu hysbysu o ganlyniadau'r gwiriadau er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar feysydd datblygu. Erbyn mis Mawrth 2005 bydd 4 adolygiad lefel uchel a 3 adolygiad lefel canolig wedi'u cwblhau | Ar ddiwedd 2006/07 cynhaliwyd gwiriadau Iechyd Caffael mewn 11 o Awdurdodau Lleol ynghyd â rhaglen ym mhob corff Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Cwblhawyd y rhaglen i CCNCau ym mis Mai 2007.<br><br>Mae modd o hyd i unrhyw sefydliad wneud cais am wiriad Iechyd Caffael. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Erbyn mis Mawrth 2005, defnyddio data o’r gronfa ddata Llygad Busnes i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i helpu busnesau gydag ymholiadau ynglŷn â chynaliadwyedd | Bwriedir i hyn ddod yn rhan o'r cynigion i gefnogi busnesau drwy'r rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes.<br><br>Mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn caniatáu datblygu prosiectau a fydd yn rhoi cymorth busnes ar systemau rheoli amgylcheddol, effeithlonrwydd adnoddau, ac ati. Mae'r canllawiau i'r Cronfeydd Strwythurol hefyd wedi'u datblygu i helpu busnesau sy'n cael arian Ewropeaidd i brif ffrydio cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn eu prosiect a'u helpu i fod yn fwy cynaliadwy. |
| Sicrhau bod y broses o roi grantiau yn gallu rhoi cefnogaeth well i geisiadau am arian sy’n mynd i’r afael ag achosion tueddiadau anghynaliadwy a/neu atebion cydlynus | Mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect ystyried materion amgylcheddol a chyfle cyfartal a chynnwys camau a fydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â hwy, yn ogystal â chyflawni o ran y rhain fel gweithgareddau penodol sy'n gymwys yn y rhaglen. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y gweithgareddau anghynaliadwy yng Nghymru. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Sicrhau bod telerau ac amodau grantiau yn creu'r nifer fwyaf posibl o ganlyniadau a galluogi Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni yn erbyn ei weledigaeth o ddyfodol cynaliadwy i Gymru | Er mwyn bod yn gymwys i gael arian Cronfeydd Strwythurol 2007-2013, mae'n rhaid i noddwyr brif ffrydio cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn eu prosiectau, a hynny er mwyn helpu i gyflawni dyfodol cynaliadwy i Gymru. Mae llythyr WEFO sy'n cynnig grant yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amodau arbennig yn Atodiad 5 a all ymwneud â themâu trawsbynciol, a chynhwysir y canllawiau trawsbynciol ar gynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal yn Atodiad 6. |
| Cyhoeddi canllawiau, ar unwaith, drwy Brosiect Braenaru Cymru, i gefnogi prosesau i adolygu'r cwmpas ar gyfer newid dulliau caffael bwyd o fewn y sectorau addysg ac iechyd a sefydlu achos busnes ehangach dros wneud hynny | Lansiwyd 'Food for Thought' dull newydd o gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2004. Mae Grŵp Bwyd Gwerth Cymru yn mapio cadwyni cyflenwi bwyd i nodi'r meysydd lle y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ymyrryd i helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo i mewn i'r Fenter Caffael Bwyd Lleol o dan arweiniad yr Uned Polisi Bwyd. |
| Yng ngoleuni'r adolygiad i ddiwygio caffael bwyd yn sectorau pwysig addysg ac iechyd, cyflwyno arfer gorau a phennu targedau er mwyn bwrw'r broses ymlaen. Cyflwynir astudiaethau achos yng nghynhadledd Menter Gaffael Cymru ym mis Rhagfyr 2004 a chânt eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2005 | Fel rhan o'r gyfres o ganllawiau 'Food for Thought' - dull newydd o gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus paratowyd dogfen 'Astudiaethau Achos' ym mis Ebrill 2005. Dangosodd astudiaethau achos y ffordd y cymhwyswyd canllawiau blaenorol 'Food for Thought' at arferion caffael bwyd y sector cyhoeddus. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| Yn ystod hydref 2004 gweithredu ein Llawlyfr Canllawiau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn fewnol. Mae'r llawlyfr hwn yn darparu cyngor ymarferol da ar leihau ac ailgylchu gwastraff mewn cyfleusterau a reolir gan y sector cyhoeddus | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod rheoli gwastraff yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Mae cryn dipyn o'r mathau canlynol o wastraff yn cael eu hailgylchu: papur, cardbord, plastig, caniau alwminiwm, tiwbiau fflworoleuol a chetris inc.<br><br>Cyhoeddir ystadegau mewn Adroddiad Amgylcheddol blynyddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff o ran gwaredu cyfarpar TG. Lluniwyd contract gan MERLIN-CCU ar gyfer ailgylchu hen asedau TG. |
| Erbyn diwedd 2004, cyflwyno canlyniadau prosiect peilot ar y cyd rhwng Ystadau Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaeth Garbon Cymru ar arbed ynni yn y GIG yng Nghymru i Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru | Cynhaliwyd cynhadledd ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, Ystadau Iechyd Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar 9 Hydref 2007 i godi ymwybyddiaeth o faterion ynglŷn ag arbed ynni, drwy'r sector Iechyd a'r sector Addysg. |
| Erbyn canol 2006, cynhyrchu canllawiau ar arferion gorau dulliau caffael a safonau perfformiad amgylcheddol ar gyfer gwaith adeiladu a ariennir gan y Cynulliad | Cytunwyd ar ddau strwythur ar gyfer meithrin hyder o ran cyflawni ar gyfer prosiectau a gymeradwyir drwy'r Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol gydag Adran Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru a chânt eu treialu i bennu'r dull cymorth gorau. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Drwy WEFO mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yn hyrwyddo egwyddorion caffael cynaliadwy a pherfformiad da o ran yr amgylchedd a chyfle cyfartal e.e. cyn rhoi cymorth i fusnesau yng Nghymru dylid cynnal gwiriad o ddiwydrwydd dyladwy sy'n cynnwys eu cydymffurfiaeth amgylcheddol, e.e. drwy'r defnydd o adnoddau gwefan NETREG, a gwiriad cyfle cyfartal. |
| Cyflawni lefel 5 y Ddraig Werdd | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyrraedd Lefel 5 y Ddraig Werdd ar gyfer ei swyddfeydd ym Mharc Cathays ac ym Merthyr Tudful a dwy o'i swyddfeydd yng Nghaerfyrddin (Heol Picton a Thŷ Bryn) gan ymuno â 12 o swyddfeydd o'r sefydliadau a unwyd.<br><br>Mae prosiect cyflwyno ar y gweill i ymestyn Lefel 5 y Ddraig Werdd i'r swyddfeydd ym Medwas a Llandrindod erbyn mis Medi 2008 a thrwy ystad gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn mis Gorffennaf 2009. |
| Profi penderfyniadau o ran lleoliad a dyluniad swyddfeydd yn y dyfodol yn erbyn meini prawf hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus | Mae lleoliadau'r swyddfeydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno wedi cael eu hasesu ar gyfer addasrwydd o dan feini prawf amrywiol gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd cynllun teithio cadarn yn cael ei weithredu cyn i'r adeiladau agor a fydd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar drafnidiaeth gyhoeddus a cherdded/beicio. Bydd pob swyddfa newydd yn rhoi digon o le i barcio beiciau a beiciau modur, llwybrau wedi'u goleuo'n dda a chyfleusterau cawodydd. |

| Pwynt Gweithredu | Sefyllfa ar Ddiwedd Mis Mawrth 2008 |
|---|---|
| | Datblygwyd polisi parcio ar gyfer swyddfa Aberystwyth yn 2007-08 a chytunwyd arno yn ddiweddar. Ei nod yw sicrhau'r defnydd gorau o'r lleoedd parcio sydd ar gael a lleihau tagfeydd traffig o amgylch y swyddfa drwy annog staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu i feicio, cerdded neu rannu car. |
| Parhau i weithio i ymateb i argymhellion cychwynnol y Gweithgor Dangosyddion ar ein dangosyddion datblygu cynaliadwy, a datblygu arnynt | Cytunwyd ar y dangosyddion, a gyhoeddir bob blwyddyn, gan y weinyddiaeth flaenorol yn 2006 sy'n adlewyrchu ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Dengys y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy diweddaraf yng Nghymru fod gwelliannau amlwg mewn 15 o'r 39 o feysydd a fesurir. Am ragor o wybodaeth, gweler adran 4 o'r adroddiad hwn. |